w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k

# ECO’r Wyddfa

£1
RHIF 525
Gorffennaf
2024

# Gefeillio Llanberis a Morbegno



Arwydd gefeillio ym mhentref Morbegno



Murlun yng nghanolfan Llanberis sy’n dathlu cyfeillgarwch Llanberis a Morbegno

Eleni, mae pentref Llanberis yn dathlu ugain mlynedd ers gefeillio gyda thref Morbegno yn nyffryn Valtellina, gogledd yr Eidal.

Dros ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae pobl newydd groesawu 21 o Eidalwyr i’w pentref i ddathlu dros ddeugain mlynedd o gyfeillgarwch ac ugain mlynedd o efeillio swyddogol.

Mae Ken Jones (sylfaenydd Ras yr Wyddfa, a’r un gychwynnodd y berthynas gyda’r Eidalwyr ) yn cofio croesawu llond llaw o Eidalwyr i Lanberis ym mis Gorffennaf 1980 i bumed ras yr Wyddfa (ras 10 milltir sy’n esgyn i gopa uchaf Cymru cyn disgyn yn ôl i Lanberis). Dyma pryd y gwnaed y cysylltiad cyntaf efo dinas Morbegno o Ogledd yr Eidal.

“Oeddan ni’n meddwl sa’ni byth yn gweld nhw eto, mae’n stori ryfeddol” eglura Ken, wrth gofio nôl i haf 1980 a’r Eidalwr Privato Pezzoli yn dod yn fuddugol yn Ras yr Wyddfa am y tro cyntaf. Ychydig gwyddai trigolion Llanberis, bryd hynny y byddai buddugoliaeth Privato Pezzoli yn sail i berthynas glos ac agos rhwng cymunedau Llanberis a Morbegno i’r dyfodol.

Pam ddaeth yr Eidalwyr i Lanberis i rasio? Hon yw’r unig ras arall yn Ewrop sy’n cynnal rasys i fyny a lawr mynyddoedd h.y. nid jest rhedeg i gopa’r Wyddfa mae angen rhedeg i lawr hefyd! Ers dechrau'r cysylltiad hwn bu llu o athletwyr o'r ddwy wlad yn cystadlu yn Ras Yr Wyddfa a'r Trofeo Vanoni (ras a gynhelir yn flynyddol ym Morbegno ym mis Hydref).

Cymaint bu’r llwyddiant o’r cysylltiad arbennig yma, bellach mae’r ddwy ras, yn ogystal â chlybiau rhedeg C.S.I Morbegno a chlwb rhedeg Eryri, wedi gefeillio â’i gilydd. Ymwelodd rhedwyr a’u teuluoedd yn ogystal â rhai o gynghorwyr y dref â Llanberis yn flynyddol a datblygwyd cyfeillgarwch agos rhwng aelodau o’r ddwy gymuned. Mae'r cyfeillgarwch a'r cysylltiad rhwng y ddwy gymuned yn un unigryw, sy'n ymestyn y tu hwnt i fyd cyffrous rhedeg mynydd.

Gefeilliodd Llanberis gyda Morbegno yn 2004, ac meddai Ken, “Ers hynny mae côr wedi bod drosodd, chwaraewyr o glwb Rygbi Caernarfon, dawnswyr gwerin a bandiau o Lanberis fel The Heights”. Bu’r band lleol, Alffa, yn chwarae mewn gŵyl yn Morbegno ym mis Mai ac ar 8fed Mehefin bu perfformiad y band Caven o Morbegno yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis.


Ken yn tywys yr Eidalwyr o amgylch Llanberis









## Yn y rhifyn hwn:


- Mallory ac Irvine - tud 7
- Deri’r Allt Wen - tud 18
- Cofio Cau Allan Dinorwig, 1874 - tud 26
- Llanberis yn cipio Cwpan y Gynghrair - tud 31










**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunio:** Ffrwd Cyfuniedig
elgangriffiths@btinternet.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Ceunant:**
Trystan a Sioned Larsen
Bodafon, Ceunant. 01286 650799
sionedlarsen@googlemail.com

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Caryl Rees
Cae Corniog Bach, Penisarwaun.
cajones674@gmail.com
(neu cysylltwch ag Ann Ifans)

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658.

**Annwyl gyfeillion**
Mae Ysgol Brynrefail wrthi'n cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn adolygu'r arlwy a gynigir i ddisgyblion y blynyddoedd is. Mae'n gyffrous i rannu ein bwriad i gynnal gwersi Cynefin i flwyddyn 7 o fis Medi ymlaen. Oherwydd y cyfyngiadau yn sgîl y gostyngiad mewn cyllid mewn ysgolion ledled Cymru, gofynnwn am eich cyfraniadau caredig i gefnogi'r profiad arloesol hwn i'n disgyblion.

Byddem yn ddiolchgar iawn i dderbyn rhoddion ar ffurf offer awyr agored a/neu eitemau cysylltiedig â garddio. Gall hyn fod yn:

- Welis
- Potiau planhigion (plastig)
- Offer garddio e.e. rhaw, trywel, menig garddio, llinyn
- Hadau
- Pren, paledi pren, potiau serameg

Yn ddiffuant
**Mrs Catherine Bailey-Martin**
**Ysgol Brynrefail**

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

| | |
|---|---|
| £20 | Nan Owen, Rhes Efrog, Llanberis |
| £10 | Nia Oliver, Gors, Brynrefail |
| £10 | Er cof am Mark, gan Fred, Gloria, Paul, Debbie, Beverly a Barry John |

**Annwyl Bawb**
Ar y 15ed o Fehefin 2024, daeth gwasanaeth dosbarthu llefrith o Llwyncoed, Cwm-y-Glo i ben wedi 150 o flynyddoedd, heblaw am doriad yn y 1960au pan oedd fy nhad yn anfon llefrith yn syth i'r ffatri. Ailddechreuais y gwasanaeth o ddosbarthu'r llefrith ar ddechrau'r 1970au.

Fy hen daid, Michael Owen, ddechreuodd y busnes, a bu pum cenhedlaeth o'r teulu'n dosbarthu'r llefrith yn Llanberis a Chwm-y-Glo dros yr holl flynyddoedd.

Diolch enfawr i bawb ac yn arbennig i bob un ohonoch am eich cefnogaeth dros yr holl flynyddoedd. Rydym yn ddiolchgar dros ben.

Yn gywir
**Eirwyn a Dafydd**

## Mae Caban yn 20 oed!

Helpwch ni i ddathlu'r pen-blwydd mawr hwn a gwneud cynlluniau gyda'n gilydd ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Rydyn ni eisiau clywed eich syniadau am sut i lunio dyfodol Caban a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn dda i'r gymuned. Fel Cwmni Buddiannau Cymunedol nid-er-elw, rydym am i Caban fod yn lle o falchder i bobl leol; i gyfarfod, creu, cydweithio, gweithio ac ymlacio, a chyrchfan i ymwelwyr ei mwynhau.

Holwch Grŵp Cymunedol Brynrefail ar Facebook am gopi o'r holiadur er mwyn rhannu eich syniadau ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a'r hyn yr hoffech ei weld yn digwydd yma yn Caban. Diolch yn fawr iawn am gymryd rhan.

Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
MCEA
Mark Davies 07447804110
mark@mdcaravans.cymru
Tregarth, Gwynedd
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Awst a Medi | 12 Gorffennaf | 26 Gorffennaf |
| Hydref | 13 Medi | 27 Medi |
| Tachwedd | 11 Hydref | 25 Hydref |



# Yn ystod y mis a aeth heibio…

- **Cenllysg.** Yn Texas (ble arall?) disgynnodd y cenllysg mwyaf i'w cofnodi yno erioed, gyda rhai ohonynt gymaint â melon! Rhybuddiwyd gyrrwyr cerbydau i gadw'n glir o rai rhannau o'r dalaith.

- **Patagonia.** Mae morfilod a ddiflannodd dros 100 mlynedd yn ôl oddi ar arfordir y rhan hon o'r Ariannin wedi dychwelyd. Dim ond bob rhyw dair blynedd maent yn cenhedlu, ac mae hynny yn un o'r rhesymau a roddodd gwyddonwyr am beidio sylweddoli eu bod yn ôl.

- **Iechyd da!** Mae Cwmni Heineken wedi datgan eu bod yn buddsoddi £39 miliwn mewn dros 600 o dafarndai led-led Prydain i *"adfywio tafarndai blinedig"* yn ôl eu hysbyseb.

- **Drysau agored.** Newyddion da i'r merched. Mae Clwb Garrick yn Llundain (a arferai fod yn gyfyngedig i ddynion yn unig), yn caniatau i ferched ddod yn aelodau am y tro cyntaf mewn hanes.

- **Arian.** Mae casgliad o wahanol fathau o arian a gasglwyd gan filiwnydd o Ddenmarc yn mynd ar werth dros 100 mlynedd wedi ei farw. Roedd Lars Bruun yn berchen dros 20,000 o ddarnau o arian, ac wedi ewyllysio eu bod i'w cadw am 100 mlynedd wedi ei farw cyn y gellid eu gwerthu. Amcangyfrifir eu bod yn werth o leiaf £57 miliwn, ac yn ôl yr arwerthwyr, dyma'r casgliad mwyaf gwerthfawr erioed i ddod ar y farchnad.

- **Pêl-droed.** Mae Cymdeithas Pêl-droed Lloegr yn gwahardd penio'r bêl mewn gemau i bob plentyn dan 12 oed am y tri thymor nesaf. Mae ymchwil wedi dangos fod pêl-droedwyr proffesiynol bron i bedair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef dementia na gweddill y boblogaeth.

- **Smocio.** Mae Llywodraeth Iwerddon wedi datgan y bydd yn cyflwyno mesurau i sicrhau mai dim ond oedolion dros 21 oed fydd â'r hawl i brynu sigarets.

- **"Every little helps".** Mae Tesco wedi dyblu cyflog eu prif weithredwr ers y llynedd. Mae bellach yn ennill £9.93 miliwn y flwyddyn.

- **Pleidleisio.** Yn India teithiodd swyddogion dros 7 awr i bentref anghysbell yn yr Himalaya er mwyn i un teulu o bump gael pleidleisio. Does dim trydan na chysylltiad â'r wê ym mhentref Warshi yn agos i'r terfyn rhwng India a Phacistan.

- **Hunllefau**. Mae gwaith ymchwil ar y cyd rhwng Prifysgolion Caergrawnt a King's yn Llundain wedi dangos y gall hunllefau fod yn arwydd fod yr unigolion sy'n dioddef ohonynt yn debygol o ddioddef clefydau megis lupus hefyd.

- **Mwnci.** Mae degau ar ddegau o'r anifeiliaid wedi ymgartrefu yn Lopburi, tref yng nghanolbarth Gwlad Thai, ac yn creu pob math o broblemau i'r trigolion a'r awdurdodau. Maent bellach yn cael eu temtio i gewyll haearn sy'n cynnwys ffrwythau aeddfed – eu hoff fwyd. Bydd y cewyll wedyn yn cael eu cario rhai cannoedd o filltiroedd i ffwrdd a'r anifeiliaid yn cael eu rhyddhau mewn coedwigoedd.

- **Petalau rhosod.** Mae ffermwyr rhosod ym Mwlgaria wedi dechrau casglu petalau rhosod bron i fis yn gynt nag arfer, a hynny oherwydd tywydd llawer cynhesach na'r arfer. Mae angen 1,000 o betalau i gynhyrchu un gram o olew rhosyn, ac y mae'r casglu yn digwydd am 7.00 y bore cyn i'r blodyn ddechrau colli'r olew yn ystod y dydd. Mae rhwng tair a phedair tunnell o olew yn cael ei gynhyrchu yno bob blwyddyn.

- **Pluen**. Mae aderyn o'r enw Huia, a gai ei gyfrif yn aderyn sanctaidd gan y Maori yn Seland Newydd, wedi marw allan ers blynyddoedd lawer. Yn ddiweddar, gwerthwyd pluen sydd wedi goroesi am £22,500.

- **Undebau**. Cynyddodd aelodaeth Undebau Llafur ym Mhrydain o 89,000 y llynedd. Mae rhif yr aelodaeth bellach yn 6.4 miliwn.

## Un cynhwysyn yn brin o greu gwefannau bro llwyddiannus…

BRO 360

Mae angen sawl cynhwysyn i greu cacen. Ac mae'r un peth yn wir am fudiadau – mae gan bawb rywbeth i'w gynnig. Rhai yn rhoi o'u sgiliau a'u hamser, rhai yn ffafrio rhoi cefnogaeth ariannol neu nawdd.

I greu gwefan fro lwyddiannus mae angen sawl peth – gohebwyr, darllenwyr, meddalwedd a chefnogaeth ac anogaeth.

Mae angen un peth arall hefyd – darn ola'r jigso – sef ychydig bach o arian.

**Y cynhwysyn coll**
Am y tro cynta', mae yna gyfle i bobol y bröydd gefnogi'r rhwydwaith trwy'r syniad o 'Arian Pawb' – *crowdfunding*.

Mae prosiect Bro360 yn gosod botwm Cefnogi ar bob un o'r gwefannau i apelio am gyfraniadau at gynnal a datblygu'r rhwydwaith, dull sydd wedi ei ddefnyddio'n llwyddiannus ledled y byd.

Yr angen cynta' ydy gwneud y gwaith sylfaenol o gynnal y dechnoleg – mae'r holl wefannau bro yn gweithio ar yr un system ac yn rhannu'r un adnoddau.

Gydag ychydig rhagor o arian, mae'r gwefannau'n gallu trefnu hyfforddiant ar gyfer darpar newyddiadurwyr lleol – ar bopeth o sgrifennu stori i ddefnyddio fideo i gwestiynu'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

Dyna pam mae Bro360 yn cynnal ymgyrch i holi'n garedig i chi ystyried cyfrannu £2 y mis i gefnogi parhad eich gwefan fro.

- Byddai 10 o bobol o bob ardal yn rhoi £2 y mis yn ddigon i gynnal y dechnoleg.
- Byddai 20 o bobol yn rhoi £2 y mis yn cyfrannu at drefnu hyfforddiant i bobol leol, gan ddatblygu gohebwyr bro newydd.

Os oes gennych rhyw buntan neu ddwy i sbario, gallwch gyfrannu drwy'r wefan hon - www.360.cymru/tanysgrifio/cefnogi

Gydag ychydig rhagor o arian, mae llawer mwy o ddatblygiadau cyffrous yn bosib yn lleol…

## CYMORTH I RAI SY'N SERENNU YM MYD CHWARAEON

Mae dilyn eich breuddwyd ym myd chwaraeon yn gallu bod yn gostus tu hwnt, gyda'r holl ymarferion, teithio, cystadlu ac ati, ond os ydych o dan 25 oed ac yn dod o Wynedd neu Gonwy efallai y gall Cronfa Cofio Robin fod o gymorth.

Mae'r elusen yn gallu gwneud cyfraniadau o rhwng £100 a £2,000 i ymgeiswyr llwyddiannus. Y llynedd gwnaed cyfraniadau o dros £16,000 i 24 o ymgeiswyr. Mae yna ystod eang o chwaraeon sydd wedi cael eu hystyried dros y blynyddoedd megis rygbi, pêl-droed, hoci, dringo, nofio, cayacio, beicio, saethu colomenod clai ac ati.

Ewch i www.cofiorobin.co.uk i weld mwy am yr elusen. Yno hefyd cewch gopi o'r ffurflen gais sydd angen ei llenwi a'i dychwelyd i'r Ymddiriedolaeth erbyn 30 Medi, 2024.

Llawer o ddiolch
**Ymddiriedolwyr 'Cofio Robin'**

# BETHEL A SEION




**Cydymdeimlad**
Yng nghartref preswyl Cerrig yr Afon bu farw Megan Iris Williams, Tyddyn Llidiart, Seion gynt. Cydymdeimlwn ag Eleri ac Eira a'r teulu estynedig yn eu colled o fam, nain a hen nain annwyl iawn.

**Croeso adref**
Braf, ar ran y pentref yw croesawu Mary Evans, Bro Eglwys adref. Treuliodd Mary gyfnod hir – ar adegau pryderus – yn ysbytai Gwynedd ac Eryri. Bu cryn holi amdani oherwydd ei aml gyfraniad i ni fel pentref.

Dymuna Mary gydnabod holl gefnogaeth teulu, ffrindiau a chymdogion am eu gofal trwy gerdyn, ffôn ac ymweliad yn ystod y cyfnod petrusgar yma. Diolch o galon i chwi i gyd.

Dymuna Rhian Hughes, Erddig, ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am eu dymuniadau da yn dilyn ei thriniaeth yn ysbytai Gwynedd a Glan Clwyd.

**Diolch**
Dymuna Ceinwen, Dewi a Huw, Cefn Gwyn, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar golli Eifion. Diolch hefyd am y rhoddion hael o £1,835 a gyfranwyd at waith Tŷ Gobaith. Dyma ddyfyniad o'r llythyr diolch a gawsom fel teulu.

"Diolch am gofio Eifion gyda ni. Bydd eich rhodd feddylgar yn fodd i ni gynnig cariad, cysur a gofal arbenigol i blant sydd yn ddifrifol wael a'u teuluoedd ar adeg dyngedfennol."

**Adran yr Urdd**
Llongyfarchiadau i Nisien ar ei lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn yr adran Ffotograffiaeth. Da iawn ti!

Cafodd 31 o blant a thri oedolyn benwythnos llawn hwyl, sbri ac antur yng Nglanllyn ar benwythnos 7-9fed Mehefin. Ymysg y gweithgareddau roedd canŵio, saethyddiaeth, adeiladu rafft a dringo a chyfle i wneud ffrindiau hefo plant o ysgolion ac adrannau eraill. Daeth pawb adref yn saff. Diolch i Vera, Gwen a Menna am ofalu amdanyn nhw.

Er mwyn sicrhau dyfodol a dechrau da i'r adran y flwyddyn nesaf, byddwn yn trefnu Taith Gerdded Noddedig ddechrau Gorffennaf. Gofynnwn yn garedig am gefnogaeth i'r plant.

Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n ein helpu i gael blwyddyn lwyddiannus eleni eto.

**Clwb Bro**
Daeth tymor Clwb Bro Bethel i ben eleni wrth inni fynd draw i'r Ysgwrn, Trawsfynydd. Ar y ffordd cafwyd orig ym Mhorthmadog cyn cyrraedd Gwesty'r Oakley Arms, Maentwrog. Yma cafwyd croeso, gwasanaeth da a phryd o fwyd oedd yn plesio'n arw. Yna, ymlaen i'r Ysgwrn.

Yr Ysgwrn oedd cartref Ellis Evans, neu Hedd Wyn y bardd cenedlaethol. Ef oedd 'Bardd y Gadair Ddu' yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw 1917. Fe'i lladdwyd ar 31ain Gorffennaf, 1917 yn ystod Brwydr Passchendaele.

Bu ei nai, Gerald, yn byw yn yr Ysgwrn tan 2012. Sicrhaodd fod dymuniad ei nain, i gadw'r drws ar agor i ymwelwyr yn cael ei wireddu. Penderfynwyd gwerthu'r fferm i Barc Cenedlaethol Eryri er mwyn ei warchod at y dyfodol.

Yn 2015, dechreuwyd y gwaith o atgyweirio y ffermdy, a'r creiriau. Trowyd y ddau feudy yn ganolfan groeso, caffi a siop. Cludwyd y Gadair Ddu o'r Ysgwrn er mwyn ei thrwsio a'i chadw at y dyfodol. Roedd Gerald wedi cadw darnau bach o'r Gadair mewn tin metal bach, fu'n gaffaeliad yn y trwsio.

Cawsom ein tywys o gwmpas y tŷ gan Elain ac Elsa a chael dysgu mwy am hanes Hedd Wyn a gweddill y teulu a'u 'hen ffordd o ffermio'. Mae'r holl ystafelloedd wedi eu hadfer i edrych fel yr oeddent yn 1917.

Mae Hedd Wyn yn symbol cenedlaethol i'r 40,000 o Gymry a gollodd eu bywydau yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu farw Gerald yn 2021, a pherthnasol heddiw yw cofio ei eiriau am ryfel a cholli bywyd – "Pam, ac i be?"

Yn ystod yr ymweliad, cafodd Richard Llwyd ei ysbrydoli i lunio englyn a'i gyflwyno i'r tywysydd. Y diwrnod canlynol derbyniodd yr Ysgrifennydd neges e-bost o'r Ysgwrn yn gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r englyn mewn rhan o'r arddanghosfa yn yr Ysgwrn.

Heddiw awch creu heddychwr – yw ein nod,
er penawdau'r dwndwr.
A sawl gwlad a'u stad llawn stwr,
nid oeri wna gwaed Arwr.

Bydd y Clwb Bro yn ail-gychwyn dydd Mawrth, 3ydd Medi. Edrychwn ymlaen.



**Clwb bowlio mat byr**
Dafydd Price, Cadeirydd Clwb Mat Byr, Bethel yn cyflwyno siec am £308 i Keri McKie, cynrychiolydd elusen ymchwil Parkinsons UK. Mae'r elw yn deillio o gystadleuaeth i glybiau'r gynghrair a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ddiwedd y tymor. Hefyd, gwelir aelodau'r clwb sy'n magu profiad ac yn datblygu'n dîm cystadleuol – ond hefyd yn cadw'i llygaid ar yr elfen gymdeithasol o gyd-gyfarfod a chwmniaeth. Dymuniadau gorau iddynt ar gyfer y tymor nesaf.



**Llongyfarch**

Bu cryn ganmoliaeth o gyfraniad ac arweiniad y Parch. Euron Hughes (Seion gynt) o Oedfa'r Eisteddfod ar Sul cyntaf Eisteddfod yr Urdd, Meifod. Llongyfarchiadau hefyd i'w ferch Lleucu a gipiodd y wobr gyntaf yn un o gystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod. Cipiodd yr ail safle mewn cystadleuaeth arall. Edrychwn ymlaen i weld ei chynnyrch mewn print yn y dyfodol.

**Oedfaon Gorffennaf**

Bethel: 7/7 Richard M. Jones 14/7 Parch. Olwen Williams 28/7 Parch. R.E. Hughes

Cysegr: 7/7 Parch. Nerys Griffiths 21/7 Undebol yn Saron ( 1.15pm) 28/7 Parch. Nerys Griffiths

**Bedydd**

Gyda'r gweinidog, y Parch. Nerys Griffith yn gweinyddu, braint oedd cael bedyddio Caio Garth yng Nghapel y Cysegr. Mae Caio yn fab i Sion a Rachel, ac yn frawd bach i'r diweddar Anni Garth. Roedd cynulliad dda o deulu, ffrindiau ac aelodau wedi dod i gefnogi'r teulu. Yn y gwasanaeth adroddodd Caleb bennill o waith Anti Lisa i gyfarch Caio.

Hapusrwydd a llawenydd yw ystyr dy enw hardd

Heb ail, mi ddoist a hynny Caio Garth,

Yn hael dy wên, ac yn hapus dy fyd

Cydia'n llaw yr Iesu, mae'r llall gan Anni o hyd.

**Mish-Mash 2024**

Erbyn i'r rhifyn yma ddod acw, bydd Wythnos Mish-mash wedi hen godi stêm. Gobeithio ein bod wedi cael tywydd ffafriol, a chefnogaeth dda i'r amrywiol weithgareddau wedi eu anelu at drawsdoriad o oedrannau. Diolch i'r pwyllgor am eu gwaith trylwyr yn eu trefniant.

**Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri**

Cynhaliwyd Rali Rhanbarth Eryri draw ar dir fferm Ddôl Castell, Rowen, Dyffryn Conwy eleni. Roedd cynhyrchiolaeth o 11 clwb o'r rhanbarth yn ymgiprys am dlysau'r gwahanol weithgareddau a thasgau. Diolch i Elan Jones, Y Fachell, un o swyddogion Clwb Caernarfon sy'n cyfarfod yma ym Methel, am ei hadroddiad o'r diwrnod fu'n un llwyddianus i'r clwb.

"Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau fu'n cystadlu o goginio, gwaith crefft, gosod blodau, ras rwystrau a chystadleuaeth tynnu rhaff. Roedd yn ddiwrnod gwych o gystadlu a'r holl waith caled yn yr ymarfer a pharatoi yn amlwg wedi dwyn ffrwyth i'n clwb bach ni. Ar ddiwedd y cyfrif terfynnol i'r Rali, roedd Clwb Caernarfon yn yr ail safle. Hoffai'r aelodau ddiolch o galon i bawb fu ynghlŷn â'r paratoadau ar gyfer y Rali, a hefyd yr aelodau eu hunain am eu parodrwydd i gystadlu. Dan arweiniad Myfanwy a'r swyddogion, diolch iddynt am drefniant arbennig wrth lunio rhediad esmwyth y Rali.

Dyma restr o rai o'r tlysau – a'r cystadleuwyr – ddaeth a chlod a balchder i'r Clwb.

Tlws Myfyr Bryn (Barnwr Gwartheg mwyaf addawol ): Alaw Morgan

Tarian Teulu Bryn Bychan (Barnwr defaid mwyaf addawol): Neli Rhys

Cwpan Barhaol yr Helfa am ddod yn ail yn y cyfrif terfynol i'r adran hŷn.

Cwpan Huw ac Ellen Jones am y clwb gyda'r marciau uchaf o'r pum clwb lleiaf eu maint.

Tarian Brwdfrydedd UAC am y clwb uchaf yn ôl cyfartaledd aelodaeth.

Ymlaen â ni i Rali Porthdinllaen yn 2025. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â ni yn y clwb, gallwch yrru neges ar ein cyfrif Facebook (CFFI Caernarfon) neu Instagram (cfficaernarfonyfc) y clwb.

**Ymweliad Brenhinol**

Fel y cyfeirwyd ato y mis diwethaf fe ymlwybrodd Cled a Susan, Bro Rhos, draw i'r Arddwest yng ngerddi Palas Buckingham. O'r siom. Wedi'r holl drefniadau ac edrych ymlaen, rhoddodd Llundain groeso glawog iawn iddynt. A glaw go iawn, yn arllwys trwy'r dydd oedd o. Gydag ychydig iawn o gysgod adeiladol cafodd nifer o'r cannoedd o wahoddedigion drochfa go iawn. Ni fentrodd y brenin – ymbarel neu beidio – allan i gyfarch. Serch hynny, rydym yn falch fel pentref fod cyn-berchnogion ein Post wedi cael y cyfle i dderbyn y gwahoddiad oedd yn cydnabod eu blynyddoedd o wasanaeth i ni fel ardalwyr. Pwy a wyr, efallai y daw Charles a Camilla draw i Fethel ryw dro!



**Llwyddiant**

Llongyfarchiadau eto eleni i Arwel ac Iola, 22 Y Ddôl, am gadw fflam pêl-fasged yn fyw yn y fro. Hwy yw hyfforddwyr/rheolwyr tîm dan 14 Dreigiau Caernarfon. Braf cyhoeddi fod y tîm yn bencampwyr Cynghrair Gogledd Cymru eleni. Daeth eu tymor i ben gyda chwip o fuddugoliaeth o 42 – 17 yn erbyn y Mold Magic (enw hudolus te'). Wedi'r brwydro, rhwydo.



**Merched y Wawr Bethel**

Ar 12fed Mehefin mwynhaodd aelodau cangen Merched y Wawr Bethel eu trip diwedd tymor i ymweld ag Amgueddfa Forwrol Llŷn yn Nefyn.

Dangoswyd ffilm ddiddorol ar hanes datblygiad Nefyn o gyfnod cyntefig hyd at heddiw, gan bwysleisio ei phwysigrwydd yn y byd morwrol o adeiladu llongau a physgota y penwaig enwog a allforwyd ar draws y byd.



Cafwyd cyfle wedyn i grwydro o amgylch yr amgueddfa a gwrando ar hanes y merched blaengar a'u dylanwad ar y ffordd o fyw yn Nefyn.

Tynnwyd raffl a drefnwyd gan yr amgueddfa a Gwenan Roberts a dderbyniodd nwyddau diddorol yn wobr.

Aethpwyd ymlaen wedyn i Caffi Ni i fwynhau bwffe arbennig o flasus wedi ei baratoi gan Nia a Dylan perchnogion y Caffi. Roedd heulwen Mehefin a'r olygfa dros y môr yn goron ar y cyfan.

Yn ystod y noson gwobrwyd nifer o'n haelodau am eu cyflawniadau yn ystod y tymor.

Cyflwynwyd tystysgrifau i dîm y cwis hwyl a ddaeth yn 4ydd trwy Gymru. Hefyd gwobrwywyd y tîm bowlio deg a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth y rhanbarth.

Roedd gwobr arbennig i Alys Jones a dderbyniodd Tlws Ann Lewis am ddod yn ail ym mhrif gystadleuaeth lenyddol Gŵyl Haf Merched Y Wawr eleni.

Wendy Ostler a enillodd wobr y dyddiadur a derbyniodd daleb M&S o £25 a Rhian Hughes, Ceri Williams a Mair Price oedd enillwyr y raffl misol.

Yn ei hanerchiad olaf fel ein llywydd eleni, diolchodd Jen Roberts i'r swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio gan ddymuno'n dda i swyddogion am y flwyddyn i ddod, gan edrych ymlaen at hoe fach yn ystod yr haf cyn dechrau ar ein rhaglen eto ym mis Medi.

# Dyddiadur y gath ddŵad/Bobliadur - Rhan 27

Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, dros dair blynedd yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

*Yn ôl pob sôn gall cathod deimlo hiraeth a thristwch os yw eu 'perchnogion' yn diflannu ac maen nhw'n cael eu gadael ar eu pennau eu hunain. Maent yn greaduriaid eithaf cymdeithasol sy'n gallu magu perthynas agos efo'u teulu deu-droedaidd. Wrth gwrs does ganddynt ddim cysyniad o'r gorffennol na'r dyfodol, felly fyddan nhw ddim yn meddwl amdanoch pan dydach chi ddim adra. Ond mi fyddan nhw'n eich cofio pan ddychwelwch ac yn adnabod eich oglau neu'r synau cyfarwydd wnewch chi.*

*Aiff rhai cathod i chwilio amdanoch. Efallai bydd ambell un yn mewian mwy, sy'n gallu bod yn arwydd bod eich cath yn chwilio amdanoch. Gall cath hefyd fynd ati i chwilio'r tŷ amdanoch, tsiecio llefydd lle'r oedd y gath a chithau'n arfer treulio amser efo'ch gilydd, neu ddisgwyl wrth y drws amdanoch.*

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori …

"Fel dwi wedi ei ddeud o'r blaen, mae'r deu-droediaid yn mynd a fy ngadael i o bryd i'w gilydd, ond maen nhw bob amser yn dod yn ôl.

Ond wir i chi mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd yma ar hyn o bryd. Mae'r un fach yn mynd a dod i'r tŷ yn gyson (dim byd newydd yn hynny) ond fel arfer mae o'n aros yma efo fi, tan ddoith hi'n ôl. Ond does 'na ddim golwg ohono fo ers tro.

Dydw i ddim wedi ei weld o ers dyddiau… Mae hi'n drist a dwi'n gallu synhwyro ei bod hi'n poeni. Mae hi'n rhoi bwyd yn fy mhowliau fel arfer, ond er bod y tywydd yn ddigon braf, dydw i ddim yn gallu mynd allan, achos dydy hi, na fo, byth adra. Mae hi'n mynd i rwla mae hi'n alw'n 'gwaith' - rwla heb fod yn bell o fan'ma am wn i ydy fanno. Mae hi'n dod adra ac ar ôl rhoi pethau mewn bag mae hi'n mynd allan eto…

Dwi'n cael mynd allan i weld be wela'i, ond dydy hi ddim yn eistedd allan efo fi, nac ar y soffa efo fi. Mae hi'n brysur drwy'r adeg, yn bwydo'r pethau bach pluog, rhoi pethau yn y bocsys mawr plastig ar olwynion neu'n rhoi eu dillad nhw yn y peiriant sy'n rhoi oglau da gwlyb arnynt. Yn sicr mae rhywbeth ar bawen.

Bob tro mae hi'n dod adra dwi'n disgwyl gweld y deu-droed tal efo hi, ond dydy o ddim yn dod. Weithiau dwi'n ei heglu hi drwy'r drws ac i'r parlwr i weld os ydy hi wedi ei guddio fo yn fanno! Dim lwc, dydy o ddim yn ista'n gwylio'r bocs mawr mawr yno nac i fyny grisiau chwaith, dwi di cael sbec, yn slei bach, pan roedd hi'n brysur tu allan. Cathod a ŵyr ble mae hi wedi ei roi o. Wnes i fusnesa yn y bag sy'n mynd efo hi, (roedd hi wedi ei adael o ar lawr) ac mae ei oglau fo ar rai o'r pethau sydd ynddo fo.

Mi ydw i'n licio ista ar y soffa, neu ar y gadair dan y bwrdd lle mae o'n ista fel arfer a lle mae ei oglau fo. Ond mae hi wedi golchi'r gorchudd dros y soffa lot o weithiau felly dwi'n cael llai a llai o'i oglau fo yn fanno, a mwy o'u hoglau 'neis' nhw! Gan nad ydy hi'n ista efo fi chwaith, dwi'n ista ar y gadair dan y bwrdd, lle dwi dal yn gallu clywad ei oglau fo. Heno ddudod hi bod hi wedi 'laru mynd i'r 'sbyty'. Mae'r gair yna'n gyfarwydd, mi fues i mewn lle felly ar ôl cael ffrae efo car!





Tybed os ydy o felly wedi cael ffrae efo rwbath ac yn gorfod aros yn y 'sbyty tan fod o'n well?

Mae hi'n hapusach heddiw. Mae hi'n siarad efo fi ac yn sôn bod 'Taid', dyna be mae hi'n galw'r deu-droed tal, sydd wedi diflannu, yn dod adra. Gawn ni weld.

Mi ddiflannodd hi unwaith eto, felly ges i napan bach i ddisgwyl tan fyddai'n dod adra. Pan agorais fy llygaid, allwn i ddim coelio be welwn i! Roedd o wedi dod yn ôl! Dim trwy'r drws arferol ond drwy'r drws cefn! Roedd o'n symud yn arafach nag arfer ac yn gafael mewn rhywbeth metel o'i flaen, ond yn sicr fo oedd o! Haleliwia!

Gwell byth, mae hi wedi cynnau'r tân yn y bocs sgwâr, am ei fod o'n teimlo'n oer ar ôl bod yn 'sbyty'. Mae yna oglau gwahanol arno fo, oglau pobl eraill ac oglau lle diarth. Roeddwn i'n meddwl basa fo'n dod i ista ar y soffa efo fi fel arfer, ond wnaeth o ddim, rhy isel iddo fo, medda hi. Ond cyrhaeddodd cadair newydd yma ddoe, ac mae o'n ista ar honno.

Tra maen nhw'n bwyta swpar, dwi'n penderfynu mynd i gael cyntun bach ar y gadair newydd! Cyfforddus iawn, ac yn agos i'r tân, dwi'n mynd i fwynhau cysgu ar hon, ond brensiach y cathod, mae hi'n fy hel fi i lawr a deud mai cadair y deu-droed tal ydy hi!

Hmmm! Dwi'n mwynhau gorwedd ar y mat, yng ngwres y tân a chysgu llwynog am dipyn. Pan mae hi'n mynd allan dwi'n neidio i fyny ar ei lin, mae o i weld yn hapus mod i'n ista efo fo, a phan ddaw hi'n ôl mae'n gadael i mi aros efo fo.

Rhaid i mi ddeud dwi'n hapusach rŵan fod y ddau ddeu-droed nôl adra. Fydd rhaid i mi edrach ar eu holau nhw rŵan a gneud yn siŵr nad ydyn nhw'n mynd i'r 'sbyty na nunlla arall am sbel go lew".




Dewch am dro
i'r siop am wledd
o lyfrau i'ch ysbrydoli

Ar y Stryd Fawr ac Ar Lein

Palas PRINT

10 Stryd y Plas Caernarfon
01286 674631
siop@palasprint.com
palasprint.com

# MALLORY ac IRVINE



Mae'n ganrif ers colli Mallory ac Irvine. Enwau anghyfarwydd i lawer heddiw efallai, er fod enw'r cyntaf yn amlwg ar dalcen un o hen adeiladau'r fro. Yn nechrau'r ganrif ddwytha byddai'r gŵr yma yn ymwelydd cyson â Gorffwysfa ar ben Bwlch Llanberis. Roedd o'n un o griw amryddawn ac arloesol o ddringwyr ddeuai yno i ddringo creigiau. Ond fe'i cofiwn heddiw nid am fod ei enw ar dalcen yr hen westy, sydd bellach yn hostel ieuenctid gan y YHA, ond am iddo ef a'i bartner golli eu bywydau ar Everest.

Bu'n aelod o dair ymgyrch i geisio dringo mynydd ucha'r byd yn nauddegau'r hen ganrif, ond fe'i cofir am fod y mymryn lleia o amheuaeth iddo lwyddo efallai i gyrraedd ei gopa bron i ddeg mlynedd ar hugain o flaen Hillary a Tenzing. Ond gan na ddaeth ef a'i bartner yn ôl i adrodd yr hanes, mae'r mater yn dal yn ddirgelwch, er i'w gorff gael ei ddarganfod yn nechrau Mai 1999.

Brodor o sir Caer oedd George Leigh-Mallory (1886-1924), mab i offeiriad yn Mabberley a aeth i goleg Magdalene yn Rhydychen, ac yna yn athro i ysgol fonedd Charterhouse. Roedd yn un o arloeswr dringo creigiau yn Eryri gan wneud dringfeydd newydd ar Lliwedd, Tryfan a Chraig yr Ysfa. Roedd yn hoff o letya yng ngwesty Goffwysfa gyda'i gyfeillion oedd yn ddringwyr. Ar sail ei allu a'i brofiad fe'i dewiswyd i fynd ar ymgyrchoedd cynharach yn 1921 a 1922 i Everest.

Ym Mhenbedw y magwyd Andrew Irvine (1902-1924) ac ar ochr ei dad roedd yna wreiddiau Cymreig a chysylltiadau ag Edeyrnion. I Rydychen yr aeth yntau, i goleg Merton. Roedd yn rwyfwr galluog ac ar gorn bod yn aelod cryf o ymgyrch fynydda ei goleg i Spitsbergen, ar argymhelliad yr arweinydd Noel Odell, cafodd wahoddiad i ymuno ag ymgyrch 1924, er yn dal yn fyfyriwr. Bu'n allweddol



11(a). The hotel at Pen-y-Pass in 1891, a few years before it became the great centre for climbers.
(Photograph by Radolf Cyriax.)

**Y Gorphwysfa.**
(Late Pen-y-Pass Hotel.)
Mrs. OWEN - - Proprietor.

THE above Hotel, situated at the head of the famous Pass of Llanberis, the finest mountain defile in Wales, is the most convenient centre for climbing on Snowdon and the Glyders. Coaches from Llanberis, Beddgelert, Capel Curig, and Bettws-y-Coed daily from May to September.

Conveyances can be sent to Llanberis or Bettws-y-Coed Stations if desired.

Tariff on Application. Letters should be addressed— Y Gorphwysfa Hotel, Llanberis, Carnarvon.

11(b). An advertisement for Y Gorphwysfa in *The Climbers' Club Journal* of 1904.

99

yn addasu a gwella offer ocsigen yr ymgyrch – roedd yn beirianydd wrth reddf. Dywedodd Mallory amdano ei fod yn hollol ddibynadwy, ond nad oedd fawr o sgwrsiwr.

Gwelwyd y ddau am y tro ola, gan Noel Odell fel mae'n digwydd, yn diflannu i'r niwl rhyw wyth gan troedfedd yn brin o'r copa. Ar y pryd dywedwyd fod y ddau, diolch i'r ocsigen mewn poteli ar eu cefnau, i'w gweld yn symud yn dda, ond er yr holl ddyfalu ac ymchwilio dros y degawdau mae beth ddigwyddodd yn dal yn ddirgelwch.

Ddaeth corff Irvine byth i'r fei er i sawl ymgyrch chwilio amdano. Cafwyd hyd i gaib rew un o'r ddau, Mallory efallai, yn 1933, ac fe honodd dringwr o China iddo weld corff dringwr gan weiddi 'English, English', ond gan i hwnnw gael ei ladd mewn cwymp eira'r diwrnod canlynol wyddom ni fawr mwy na hynny. Pan gafwyd corff Mallory, ar ôl sawl ymdrech, doedd dim i brofi iddo gyrraedd y copa gan fod ei gamera wedi diflannu. Dim ag eithrio na chafwyd hyd i ffotograff o'i wraig Ruth yn ei boced. Yn ôl ei ferch roedd yn bwriadu claddu'r llun yn eira'r copa, efallai iddo wneud, efallai ddim!

Dros y blynyddoedd bu llawer o ddyfalu a chryn ddadlau a lwyddodd y ddau, neu efallai Mallory ei hun fel y dringwr gorau a'r cryfaf, i gyrraedd y brig. Roedd rhai a fu ar y grib ogleddol wedi hynny yn dadlau fod yr her o ddringo un o'r mân glogwyni sydd ger y copa yn ormod, ond rhaid cofio roedd yn ddringwr da. Felly dyfalu a chofio amdanynt fu, ac a fydd.

**DEI TOMOS**

## Ysgol Gwaun Gynfi





Yn ddiweddar bu disgyblion 5 a 6 i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsom lawer o hwyl yn mynychu amrywiaeth o weithgareddau. Diolch yn fawr i staff yr Urdd am y croeso cynnes.

**Gŵyl Pêl-droed 5 pob Ochr Ysgolion Gwynedd**
Cafodd yr hogiau lawer o hwyl yn cystadlu yn erbyn nifer o ysgolion Gwynedd. Da iawn chi hogiau!





**Eisteddfod yr Urdd 2024**
Perfformiodd y genethod yn arbennig o dda gyda grŵp dawnsio Hudoliaeth gan ddod yn 3ydd. Llongyfarchiadau!



**Cwpan i'r 'Darans'**
Daeth y tymor pêl-droed i ben gyda buddugoliaeth hanesyddol i dîm Llanberis. Roedd gobaith y byddai dau dîm o fro'r 'Eco' yn cystadlu am Gwpan Snowdonia (pam nad Cwpan Eryri gyda llaw?), ond boddi yn ymyl y lan fu hi i Lanrug, a cholli o un gôl yn erbyn Glantraeth yn y gêm gyn-derfynol. Roedd un gôl yn ddigon i Lanberis ennill yn erbyn Trearddur, pencampwyr y Gynghrair, ac felly Môn yn herio Arfon oedd hi ar gae Llanfairpwll ddiwedd y tymor.

Glantraeth aeth ar y blaen, ond tarodd Llanberis yn ôl gyda'r brodyr Ifan a Peter Mansoor yn sgorio gôl yr un, a'r eilydd Gethin Maxwell yn gwneud yn sicr o'r fuddugoliaeth a'r Cwpan. Yr hyn sy'n syndod braidd yw sylweddoli mai hwn yw'r tlws cyntaf i dîm Llanberis ei ennill ers bron i chwarter canrif. Y tro diwethaf i'r clwb ennill unrhyw dlws oedd yn nhymor 2000–01 pan enillwyd Cwpan Alves. Gobeithio na fydd yn rhaid disgwyl cyhyd am y nesaf!

Aelodau'r tim oedd: Lee Williams, Dylan Parry, Dion Owen, Nidian Huws, Craig Green, Kurt Hellfeld, Ifan Mansoor, Ben Rowlands, Tom Saynor, Ben Jones a Peter Mansoor. Yr eilyddion oedd Gethin Maxwell, Aled Prichard, Caio Thomas a Thomas Collins.

**Diolch**
Hoffai Nan Owen, 8 Rhes Efrog, ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a blodau, ac am y £430 dderbyniwyd at Hosbis Dewi Sant ar achlysur ei phenblwydd arbennig. Diolch o galon i bawb.

**Pentref Taclus Llanberis**
Mae'r grŵp yn hel sbwriel pob bore Sul trwy'r haf, i fyny at ddiwedd Hydref, ac wedyn yn fisol trwy'r gaeaf. Bydd y grŵp yn cychwyn am 10.00am o Siop Menter Fachwen ar y Stryd Fawr, ac yn gorffen yno am hanner dydd. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni ac mae pob offer ar gael i hel y sbwriel! Gweler y trefniadau pob dydd Sadwrn ar dudalen y grŵp ar Facebook.

**Capel Coch**
**Oedfaon Gorffennaf ac Awst**
7fed Gorffennaf 10.00am Parch Huw Pritchard
14eg Gorffennaf 10.00am Parch Glenys Jones
21ain Gorffennaf 2.00pm Parch Nerys Griffiths
28ain Gorffennaf 10.00am/2.00pm Oedfa
Mis Awst **Dim Oedfaon**

**Hen Stampiau**
Diolch i bawb sy'n cadw hen stampiau. Maent yn cael eu hanfon i gefnogi Gwaith Cymdeithas Y Deillion. Gelli'r rhoi'r stampiau yn y cyntedd neu i un o'r swyddogion.

**Bocs Bwyd**
Diolch i bawb sy'n cyfrannu nwyddau i'r Bocs Bwyd. Gelli'r rhoi'r nwyddau yn y Bocs Bwyd yn y cyntedd, unrhyw Sul.

**Eglwys Sant Padarn**
**Gwasanaethau mis Gorffennaf:**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid bob bore Sul am 11.00am, yn ystod mis Gorffennaf yn ogystal ag 8.00am ar ddydd Sul 28ain Gorffennaf.

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10.30 a 2.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Enillwyr Clwb 100**
**Mis Ebrill**
1. Brenda Griffith 2. Heather L Jones 3. Elen Hughes
**Mis Mai**
1. Suzanne Fisher 2. Heulwen Edwards 3. Sheila Roberts

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Gorffennaf**
7fed Gorffennaf 9.30am Cymun Bendigaid
14eg Gorffennaf 4.00pm Gwasanaeth Teulu
21ain Gorffennaf 9.30am Boreol Weddi
28ain Gorffennaf 9.30am Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir gwasanaeth bob bore Mawrth am 9.30am

**Clybiau crefft**
Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddoli yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis -** Rydym yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6.00pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnio** - yn y Ganolfan ar brynhawn Dydd Iau, 2.00 - 4.00 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun, neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco.

Diolch yn fawr.

**CABAN CYNFI**
**HYSBYSEB SWYDD**
**Cydlynydd Caban Cynfi**

Rydym yn awyddus i benodi cydlynydd llawrydd profiadol a brwdfrydig i weithio ar brosiect fydd yn darparu gofod a gweithgareddau cymunedol er budd trigolion Deiniolen a'r cylch.

- Cytundeb: llawrydd
- Oriau: 15 awr yr wythnos
- Cyflog: £13 yr awr
- Lleoliad: Cyfuniad o weithio o gartref ac yng Nghaban Cynfi

I gyflwyno cais gyrrwch ebost at cabancynfi@yahoo.com yn amlinellu eich rhesymau dros ymgeisio. Atodwch gopi o'ch CV a dau eirda. Dyddiad cau: 5yb ar 8/7/24.

Am gopi o'r swydd ddisgrifiad ewch i'r dudalen 'newyddion' ar ein gwefan www.cabancynfi.wordpress.com ac am fanylion pellach ebostiwch cabancynfi@yahoo.com

*This is an advert for a position where the ability to communicate through the medium of Welsh is essential*

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

**Dewch i wirfoddoli yn y banc bwyd!**

Rydym yn chwilio am aelodau newydd i ymuno ar dîm gwych o wirfoddolwyr yn y banc bwyd. Mae wir angen pobl **sy'n fodlon dysgu am y cymorth sy ar gael i bobl mewn angen a sy'n fodlon trafod efo ymwelwyr sut i fanteisio arno**. Rydym hefyd yn chwilio am bobl i help efo'r cyfryngau, asiantaethau eraill, cludiannau, a mwy.

Am ragor o fanylion, anfonwch e-bost at **volunteer@arfon.foodbank.org.uk** neu ffoniwch 07754 234805 i siarad efo Trey.

Arfon foodbank
Banc Bwyd Arfon

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa




**BYSUS RHIWLAS**
**BYSUS BACH A MAWR**
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol -
Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

# Newyddion GwyrddNi




**Llwyddiant ein Cais Grant**
Mae'r rhwydwaith o fentrau, grwpiau ac unigolion lleol sydd yn datblygu'r syniad o Bartneriaeth Dyffryn Peris wedi llwyddo gyda chais i gronfa Grymuso Gwynedd (Ffyniant Bro/Levelling Up) ar gyfer swm o £8,000 gydag arian cyfatebol o brosiect GwyrddNi a ariennir gan y Loteri Cenedlaethol.

Bydd y cyllid yma yn talu am logi uned fasnachol am 6 mis. Ynddi, yng Nghaban, Brynrefail, bydd 4 'desg boeth' i weithwyr a gwirfoddolwyr datblygu cymunedol yr ardal allu cydweithio, cyd-ddatblygu syniadau a thalu sylw dyledus i'r manylion na cheir amser i'w cyfarch mewn cyfarfodydd gyda'r hwyr. Os hoffech chi fanteisio ar y cyfle rhad ac am ddim yma, cysylltwch gyda lowri@deg.cymru. Os oes gennych chi ddodrefn swyddfa sydd angen cartref newydd, plis cysylltwch hefyd!

Yn ogystal a'r 'hwb partneriaeth', bydd y cyllid grant yma yn galluogi comisiynu cefnogaeth arbenigol ar gyfer strategaeth gyllido hir-dymor, datblygu systemau a dealltwriaethau partneriaethol a chynnal digwyddiadau cyhoeddus i ennyn brwdfrydedd, perchnogaeth a chefnogaeth i'r ymdrechion rhyng-gymunedol cynnar yma. Eich Partneriaeth chi fydd hon, a phartneriaeth eich plant i'r dyfodol - felly dewch i rannu eich sgiliau, syniadau a'ch barn wrth ei siapio hi.

Yn olaf - bydd lawnsiad swyddogol i'r Bartneriaeth yn ystod yr hydref, a gobeithiwn y bydd cyfle am swydd rhan-amser yn cael ei chyhoeddi bryd hynny i gynnal a thyfu'r Bartneriaeth a'i phrosiectau i'r dyfodol.

Yn ystod cyfarfod ArdalNi 2035 Cyngor Gwynedd ar nos Iau y 6ed o Fehefin - calonogol iawn oedd y penderfyniad mai Partneriaeth Dyffryn Peris, trwy gyfarfodydd rhwydwaith, a fydd yn gwasanaethu'r dasg o fonitro a hybu cynnydd prosiectau oddi mewn i Gynllun Adfywio Lleol Bro'r Wyddfa.

Dewch i gefnogi cyfarfod Partneriaeth Dyffryn Peris - dydd Mawrth 2il Gorffennaf, 6.00 - 7.30pm, yn Hwb Partneriaeth Dyffryn Peris, Caffi Caban, Brynrefail. Bydd hwn yn gyfarfod gweithredol ac ymarferol (ar ein traed, o bosib!) er mwyn:

a) Pennu sgôp/briff gwaith ymgynghorydd/wyr
b) Creu rhestr fer strwythurau cyfreithiol posib i'r barnteriaeth
c) Dathlu'r swyddfa newydd gyda phaned
ch) Adolygu tasgau Cynllun Gweithredu









**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

J2O
Gwasanaeth Gwres a Plymio
Gas Safe Register
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
*www.fframia.com*

# Ysgol Waunfawr

**Criced**
Llongyfarchiadau i'r tîm a fu'n cystadlu yn Nhwrnament Criced yr Urdd yn ddiweddar. Diolch i Glwb Criced Bangor am y croeso.

**Dinas Dinlle**
Fel rhan o'r thema 'lan y môr' bu plant y Meithrin/Derbyn am dro i draeth Dinas Dinlle am y bore a mwynhau hufen ia. Nid oedd y tywydd yn gynnes iawn ond bu i bawb fwynhau beth bynnag! Gwych oedd eu gweld yn adeiladu cestyll yn y tywod gyda bwced a rhaw.

**Gwersi Pres**
Llongyfarchiadau i Alffi Mei Harris a Mabon Tuff ar eu llwyddiant yn yr arholiad corn yn ddiweddar – Gradd 3 i'r ddau! Daliwch ati flwyddyn nesaf fechgyn!

**Patagonia**
Yr oedd hi'n braf cael croesawu María Angélica Evans a Lowri i'r ysgol unwaith eto. Gobeithio y gellir gwneud cysylltiadau gyda'r ysgol yn y Gaiman yn y dyfodol.

**Ffair Haf Ysgol Ysgol Waunfawr: 10fed Gorffennaf, 5.00 hyd 7.00 pm.**



**Taith Yr Wyddfa**
Bu i 18 o blant Blwyddyn 6 ddringo i gopa'r Wyddfa dan oruchwyliaeth swyddogion yr Urdd. Pawb wedi mwynhau yn arw, er yr oerfel a'r tywydd gwael. Yr ydym yn ffodus iawn o allu cynnig profiadau o'r fath i'r plant.







**Celf Yr Urdd**
Da iawn i'r bechgyn/brodyr am eu gwaith canmoladwy ar gyfer cystadlaethau yr Urdd. Diolch i'r rhieni am gefnogi.



**Athletau**
Bu i 16 o blant gystadlu yn y gystadleuaeth athletau yn ddiweddar. Daeth y tîm Bl 6 4x100m yn fuddugol – da iawn chi.

Bu i Ellen Huuse wneud yn wych yn y rhedeg a Torin Richard hefyd ar y gwaywffon. Yr oedd canmoliaeth i sgiliau Alffi Mei ac Alffi Wyn ym myd y shot a gwaywffon. Daliwch ati hogia!



**Diogelwch y ffordd**
Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion sydd wedi bod yn ein cadw yn ddiogel yn ystod y flwyddyn wrth i ni groesi'r ffordd.







**Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i holl blant a phobl ifanc y pentref a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Mae'r siwrnai yn un hir i gyrraedd y Genedlaethol, ac rydym yn hynod falch o lwyddiant nifer:

Efa Llwyd, Bryn Melyn ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth rhyddiaeth (stori fer) o dan 25 oed.

Twm Shôn, Bodrida ar lefaru Blwyddyn 2 ac iau

Miri Sion, Tŷ Pen ar fod yn rhan o Gôr Gwerin 3 Llais Blwyddyn 10 a dan 19 oed, Ensemble Lleisiol Bl 10 ac o dan 19 oed, a Perfformiad Theatrig o Sioe Gerdd Blwyddyn 10 ac o dan 25 oed.

Cadi Lois Gossett ar fod yn rhan o Grŵp Dawns Hip Hop/Disco/ Stryd Tir Fyth blwyddyn 7 ac o dan 19 oed

Eila, Gadda ac Aila, Llys y Waun fel rhan o Grŵp Dawns Hip Hop/ Stryd/Disgo Hudoliaeth Blwyddyn 6 ac iau.

Llongyfarchiadau hefyd i'r holl blant a phobl ifanc fu'n cystadlu yn y Cylch a'r Sir, ond na chyrhaeddodd y Genedlaethol eleni - daliwch ati!

**Dymuniadau gorau**
Mae nifer o'r pentrefwyr wedi bod yn sâl neu'n cael triniaeth ysbyty yn ddiweddar, ac rydym yn dymuno'r gorau am adferiad buan i chi gyd:

Lesley Jones, Stad Tŷ Hen; Dewi Jones, Dôl y Coed; Ann Jones, Croesor; Glenys Jones, Stad Tŷ Hen; Raymond Parry, Ffridd Felen. Cofion cynnes atoch i gyd.

**Penblwyddi arbennig**
Mae Raymond Parry Ffridd Felen wedi dathlu penblwydd arbennig iawn yn ddiweddar, sef 90 oed. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu, Raymond, a dymuniadau gorau posib i chi ym Mhlas Pengwaith, Llanberis.

Roedd Alma Jones, Tan y Fron hefyd yn dathlu penblwydd arbennig sef 80 oed. Roedd dathlu yn Nhan y Fron ac yn Dolwar Fach, ac rydym yn anfon dymuniadau gorau i chi ar weddill y dathlu eleni Alma. Diolch i chi am anfon y neges ganlynol:

"Fel hogan o Port yn wreiddiol,hoffwn ddiolch o galon i bobol Waunfawr am gardiau, negeseuon a phob dymuniad da dderbyniais ar achlysur fy mhenblwydd arbennig. Dwi'n amau'n gry' mod i'n un o'r Beganifs erbyn hyn!

Diolch o galon.

Alma"

**Gwyrfai Gwyrdd – Ymgysylltu Cymunedol**
Mae cyfle i bawb ddod i nabod Gwyrfai Gwyrdd, ac hefyd gyfrannu at ei ddatblygiad fel menter ynni cymunedol newydd i wasanaethu Bro Gwyrfai a Chaeathro. Ein prif bwrpas yw atal tlodi tanwydd trwy harneisio ynni adnewyddol i leihau costau trydan a'r defnydd o danwydd, o dan reolaeth y gymuned.

Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Waunfawr Caeathro a Chyngor Cymuned Betws Garmon yn ogystal ag Adra, Antur Waunfawr a Chymunedoli.

**Gwyrfai Gwyrdd ... Er Gwell**
I ddeall rhagor a chyfrannu, mae croeso i bawb ymuno â ni:-

Sesiynau anffurfiol "Taro i Mewn" 4.00–7.30pm

8fed Gorffennaf: Rhyd Ddu (lleoliad i'w gadarnhau)

9fed Gorffennaf: Canolfan Waunfawr, Waunfawr

10fed Gorffennaf: Canolfan y Capel, Caeathro

13eg Gorffennaf: Ffair Haf Antur Waunfawr 12.00–4.00pm

18fed Gorffennaf: Gweithdy Cyhoeddus, Canolfan Waunfawr, 7.00–9.00pm

Am fanylion pellach, cysylltwch â Dafydd Davies ar dafydd. davies@gwyrfaigwyrdd.cymru neu alw ar 07841 764044




**Penblwydd Arbennig Antur Waunfawr**
Mae Waunfawr yn hynod o lwcus o fod wedi chwarae rhan allweddol a phwysig yn newid agweddau at bobl ag anableddau dysgu a rhoi cyfleon gwaith go iawn iddynt. Diolch i weledigaeth yr hynod Gwynn Davies. Eleni, mae dathlu 40 mlynedd ers troi'r weledigaeth honno'n realiti. Bydd mwy o wybodaeth am y dathlu yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, dewch i gefnogi ac i ddathlu'r Antur yn ei Gŵyl Haf ar 13eg Gorffennaf rhwng 12 a 4 o'r gloch.

**Cydymdeimlo**
Bu farw mam Menna Jones, Blaen y Nant yn sydyn ac annisgwyl. Rydym yn cydymdeimlo â chi a gweddill y teulu yn eich colled.

**Ymddeoliad hapus!**
Mae Shirley Parry, sydd wedi bod yn rhedeg busnes Weldpar yn y pentref, wedi ymddeol ar ddiwedd mis Mai. Mae hyn yn golygu bydd y busnes fel y mae yn Waunfawr hefyd yn cau, a'r gwasanaeth darparu offer weldio wedi cael ei brynu gan gwmni o Sir Fôn. Bydd mwy o hanes cwmni Weldpar yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus i ti, Shirley.

**Apêl Wythnos Cymorth Cristnogol**
Yn dilyn Cofid, a chan fod llawer mwy o ddulliau bellach i gyfrannu tuag at elusennau, daeth yr arfer o gasglu arian o ddrws i ddrws yn y pentref i ben.

Yn ein cyfarfod Paned a Sgwrs yn ystod wythnos yr Apêl, cawsom gyfle gan Anna Jane, ein Gweinidog a'n ffrind, i wylio ffilm bywyd gwraig o'r enw Aline o Burundi oedd yn byw mewn tlodi eithafol, yn cael ei cham-drin, yn ddi-gartref ac yn llwgu, cyn iddi gael cymorth gan bartneriaid Cymorth Cristnogol a sefydlu ei busnes bach ei hun o dyfu afocados a chnau daear.

Wrth sicrhau incwm hanfodol, mae Aline wedi trawsnewid bywyd ei theulu ac yn gwthio yn ôl yn erbyn y tlodi. Mae bellach yn arwain ei chymuned i wneud yr un peth drwy'r gymdeithas Benthyg a Chynilo.

Casglwyd £339.80 gan gyfeillion Paned a Sgwrs a chriw bach oedfa'r bore tuag at yr apêl, a chawsom lythyr gan Llinos Roberts, Swyddog Codi Arian Cymorth Cristnogol, yn diolch am ein cefnogaeth sy'n helpu rhai sy'n ffoi rhag trais, ofn ac anobaith, ac yn fodd i hybu gwaith Cymorth Cristnogol i ofalu bod bwyd, cysgod, gofal iechyd, dŵr glan ac urddas ar gael i bawb.

Premier
SIOP SGWÂR LLANRUG
01286 673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, SWYDDFA BOST, a chroeso cynnes.

# Ysgol Brynrefail

**Eisteddfod yr Urdd Meifod 2024**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion hynny fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd dros wyliau'r Sulgwyn a diolch i'r athrawon a staff fu'n hyfforddi a helpu.




**Daeth sawl un i'r brig mewn cystadlaethau gwaith cartref.**
Yn ddiweddar fe gymerodd 8 set 1 mathemateg ran mewn cystadleuaeth mathemateg oedd wedi ei greu gan Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol Cymru

Llongyfarchiadau mawr i Zsofia Inze ac Elliot Martin oedd ymysg y rhai a ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth flynyddol Mathemateg i flwyddyn 8. Camp ardderchog allan o tua 1,000 o ddisgyblion dros Gymru oedd wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Yn y llun fe welwch Zsofia yn cael ei llongyfarch gan yr Athro Gareth Roberts. Roedd hyn mewn seremoni ar ddydd Iau, 30ain Mai yn y babell gwyddoniaeth "Gwyddonle" ar faes yr Eisteddfod i gyflwyno'r wobr. Da iawn chi Elliot a Zsofia.




**Band Ysgol Brynrefail**
Unwaith eto roedd y band yn serenu yn y gystadleuaeth i fandiau neu gerddorfa ysgolion uwchradd. Braf oedd gwrando ar y gystadleuaeth a sylwi ar y safon uchel iawn a gafwyd gan y ddau fand cyntaf, gyda Ysgol Brynrefail yn dod yn ail haeddiannol iawn.



**Cystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd**
Daeth y canlynol i'r brig trwy Gymru gyfan yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd:

Elain Llwyd Lewis bl 13 – 3ydd – ffotograffiaeth bl 10 – dan 19 am gyfres o luniau mewn du a gwyn.

Lleucu Evans – bl 8 - 2il – creu tecstiliau bl 7-9

Cafodd eu gwaith ei arddangos ar faes Eisteddfod. Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ar eu llwyddiant!

**Gweithdy Drama i flwyddyn 7 ac 8**
Ar ddechrau mis Mehefin daeth Mari a Buddug o Ragarug atom i gynnal gweithdy drama dros ddeuddydd gyda rhai o ddisgyblion blynyddoedd 7 ac 8

Roedd y gweithdai yn effeithiol iawn i ddysgu sgiliau newydd a meithrin creadigrwydd tra hefyd yn magu hyder i berfformio yn Gymraeg o flaen eraill gyda'r rhyddid i'r disgyblion gael bod yn nhw eu hunain.

Cafodd pawb gyfle i weithio fel tîm ac hefyd gyda chyfoedion gwahanol fel partner.

Roedd cyfleon i ysgrifennu'n greadigol drwy gymryd geiriau ar hap o bapur newydd a'u defnyddio i greu barddoniaeth. Roedd hwn yn ddull llwyddiannus iawn o ehangu geirfa'r disgyblion.

Cafwyd cyfleoedd hefyd i drafod teimladau mewn ffordd hamddenol a naturiol a hynny trwy ddefnyddio dulliau creadigol i ddenu ymateb y plant – sef creu siapau a lluniau a defnyddio lliwiau i ateb cwestiynau am eu hemosiynau.

Roedd pawb gymrodd rhan wedi mwynhau'r profiad yn arw iawn. Diolch yn fawr Mari a Buddug!

# Un funud fach …

## GWELL NA GOLFF

Welsoch chi ddiweddglo cyffrous Pencampwriaeth Agored Golff yr Unol Daleithiau? Roedd yn ymddangos mai'r Americanwr Bryson DeChambeau fyddai'n ennill; ond mwyaf sydyn, o fewn tri thwll i ddiwedd yr ornest roedd y Gwyddel Rory McIlroy ar y blaen o ddwy ergyd. Ond yna, trwy gyfuniad o ddau bytiad byr sâl gan McIlroy a chwarae gwych gan DeChambeau, yr Americanwr a orfu ac a goronwyd yn Bencampwr ar gwrs Pinehurst 2 yng Ngogledd Carolina.

Ac yntau wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth hon y llynedd hefyd, roedd hon yn siom enfawr i McIlroy, ac mae'r hir ddisgwyl am fuddugoliaeth arall iddo yn un o brif gystadlaethau golff y byd yn parhau. Daw'r cyfle nesaf ym Mhencampwriaeth Agored Gwledydd Prydain ar gwrs Troon yn yr Alban y mis hwn.

Pwy a ŵyr beth a ddigwydd yno? Mae gwybodusion y gamp eisoes yn doethinebu ynghylch yr effaith a gaiff y golled arno. Ond rheitiach na thristau drosto yw cydlawenhau ag o. A rheitiach na chydymdeimlo yw ei longyfarch gan iddo fo a'i deulu adael De Carolina ar eu hennill. Fis neu ddau'n gynharach, roedd priodas Rory McIlroy a'i wraig Erica Stoll yn fregus. Mor fregus nes bod bwriad i ysgaru. Ond ar drothwy'r gystadleuaeth yn Pinehurst, cyhoeddwyd bod y bwriad hwnnw wedi ei roi heibio a bod y ddau wedi cymodi â'i gilydd. Mae yna bethau pwysicach na golff a'r holl gyfoeth ac enwogrwydd a ddaw yn ei sgil i oreuon y gamp. A heddiw, mae'n debyg nad oes neb a ŵyr hynny'n well na Rory McIlroy. Nid fy lle i na neb arall yw dyfalu na doethinebu, na darogan chwaith beth a ddaw o'r briodas. Ond o ddeall am y cymodi a fu, ni allwn lai na dymuno'n dda i'r ddau ac i'w merch fach.

Er mor ddieithr yw'r ddau hyn, mi fedran nhw ein hatgoffa o'r pethau sy'n bwysig i bawb ohonom. Ac ymysg y pwysicaf o'r pethau hynny, fel y gŵyr cynifer ohonom – yn wŷr a gwragedd, yn dadau a mamau, yn frodyr a chwiorydd, yn feibion a merched – y mae teulu, a phriodas. I Gristnogion, rhoddion Duw i'w derbyn a'u gwerthfawrogi a'u mwynhau yw'r rhain fel popeth arall sy'n rhan o'i ddarpariaeth ragluniaethol ar eu cyfer. Mwy gwerthfawr nag aur ac arian, a phwysicach na statws ac enwogrwydd yw bendithion symlaf ein bywydau: iechyd a synhwyrau; bwyd a diod; cyfeillion a chymdogaeth. A theulu a phriodas hefyd, a'r cyfan wedi eu trefnu a'u rhoi i ni er ein lles a'n diddanwch gan Dduw, sydd yn ei gariad mawr yn dymuno i ni bob diddanwch a llawenydd a chysur. Ac os cawsom yr hyfrydwch a'r fraint o fwynhau'r bendithion hyn, diolchwn amdanyn nhw bob dydd gan glodfori Duw am ei drugaredd a'i haelioni i ni trwyddyn nhw.

**JOHN PRITCHARD**











**Cystadlaethau a llwyddiannau Mathemateg blwyddyn 9**
Diolch yn fawr iawn i Jessica Roberts, Llio Haf Williams, Efa Roberts ac Esyllt ach Rhys o flwyddyn 9 wnaeth gynrychioli'r ysgol ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar mewn cystadleuaeth mathemateg GWE Gogledd Cymru ar gyfer bl 9. Cydweithiodd y bedair yn arbennig o dda gyda'i gilydd i ddatrys problemau mathemategol.

**Rhedwr o fri!**
Llongyfarchiadau i Rhys Williams 8S am ennill medal yn Ras Marathon Wltra Eryri dros y penwythnos cyntaf ym mis Mehefin yn rhedeg gyda'i dad – go dda chdi!



## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Yng nghyfarfod mis Mai cafwyd cyfle i ymweld â Chanolfan Menter Fachwen ar ei safle yn yr Hen Orsaf yng Nghwm-y-glo. Yno i groesawu pawb ac i dywys yr aelodau yn y grefft o greu Basgedi Blodau oedd Mrs Maggie Hughes. Eglurodd ei rhan hi yn y cynllunio yn y gweithle, a sôn am y mannau y maent yn eu cyflenwi gyda'u cynnyrch i harddu safleoedd: y Stryd Fawr ym Mangor yn eu plith. Arddangosodd ei chrefft o osod blodau mewn basgedi, a chyflwyno awgrymiadau buddiol ar sut i'w gwarchod yn ogystal â sut i ofalu am amrywiol blanhigion eraill. Er ei bod yn noson o gawodydd y tu allan, roedd pawb wedi mwynhau eu hunain gan eu bod mor ffodus o fod yn ddiddos dan gysgod braf yn y twnnel garddio! Cafwyd paned i gloi'r noson yn y Swyddfa a chael cyfle i archebu amrywiaeth o blanhigion.

Yn ystod y mis hefyd, manteisiodd nifer o aelodau'r Gangen ar y cyfle i gymryd rhan yng Ngweithdai Crefftau'r Ffederasiwn yn y Ganolfan yn Llanberis. Roedd tri chwrs ar gael: Crefftau Papur, Tecstiliau a Mosaig dan arweiniad Alison Richmond, Anita Long a Pat Jones.

Cymerwyd rhan i addurno drych mewn mosaig a chreu darluniau wedi eu gweithio â gwlân a'u ffeltio a chreu blwch desg lliwgar i ddal amrywiol gelfi. Cwrs deuddydd a fwynhawyd gan bawb.







**Diolch**
Dymuna Nia Oliver, Gors ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu cefnogaeth a'u dymuniadau da yn ystod ei chyfnod o driniaeth yn ddiweddar, ynghyd â'r gofal meddygol arbennig a dderbyniodd. Diolch i bawb am bob caredigrwydd.

**Eglwys Santes Helen Penisarwaun**
Gweinyddir yr Offeren Sanctaidd am 11.00 y bore ar y Suliau canlynol:
Mehefin 30ain
Gorffennaf 7fed, 14eg, 21ain a'r 28ain

**Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen**
Gorffennaf 7fed:
Gweinyddir yr Offeren Sanctaidd am 3.00 y prynhawn

# Ysgol Llanrug





**Pythefnos Iechyd a Lles**
Mae pwyslais wedi bod ar iechyd a lles yma yn yr ysgol yn y mis diwethaf. Mae'r plant wedi mwynhau bob math o brofiadau yn yr awyr agored ac o fewn y dosbarth. Dyma flas ar y gweithgareddau y bu'r plant yn eu mwynhau.

Cafwyd bob mathau o brofiadau o rygbi i ioga dros y bythefnos a phawb yn mwynhau cael mynychu y siop ffrwythau yn ddyddiol. Uchafbwynt y cyfnod oedd rhedeg 1-5K noddedig. Cyflwynwyd yr arian i ferch 5 oed sydd yn derbyn triniaeth yn Alder Hay ar hyn o bryd.







**Sgiliau Beicio a Kerbcraft**
Llongyfarchiadau i bawb yn blwyddyn 2 sydd wedi derbyn tystysgrif am gwblhau gwersi Kerbcraft.

Bu plant blwyddyn 6 yn brysur yn ddiweddar yn derbyn hyfforddiant Lefel 1 a 2 sgiliau beicio. Yn ogystal, mae'r Cyngor Ysgol Iach wedi derbyn newyddion da wedi iddynt ysgrifennu at Beiciau Antur ac wedi derbyn dau feic ar gyfer yr ysgol at y dyfodol. Diolch yn fawr i Beiciau Antur.

**Yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r bechgyn am wneud yn wych yn yr Eisteddfod draw yn Meifod.

Cafwyd gemau agos yn y criced a phawb wedi gwneud yn wych. Wythnos yn gynt roedd pawb yn mwynhau cystadlu mewn cystadlaethau athletau.









**Cwis Llyfrau**
Mae'r grŵp yma wedi bod yn darllen a thrafod llawer yn ddiweddar ac wedi cael llwyddiant ac felly yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.

**Technocamps**
Daeth Lois draw o'r Brifysgol i gyflwyno gwersi codio i'r Dysgu Sylfaen.







**Ras Llanrug**
Roedd ras 5K Llanrug yn fwy poblogaidd nag erioed gyda 233 o redwyr yn mynd amdani. Pawb yn canmol yr awyrgylch ac yn mwynhau y baned ar ddiwedd y ras. Daeth y plant yn llu i fwynhau y noson ac wrth eu boddau yn derbyn medal am eu gwaith caled cyn mwynhau y danteithion o'r siop.





# LLANRUG

**Nofel newydd**
Llongyfarchiadau i'r awdures Mair Wynn Hughes ar gyhoeddi ei nofel ddiweddaraf, *Y Bocs Erstalwm* a hithau yn 92 oed. Gwasg Carreg Gwalch yw'r cyhoeddwyr, a lansiwyd y nofel ar 23ain Mai.

Mae Mair wedi ymgartrefu ym Mryn Moelyn ers tair blynedd bellach ac wedi cyhoeddi dros 100 o lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc, a'r nofel ddiweddaraf ydy'r 115fed llyfr iddi ei gyhoeddi ers y flwyddyn 1967. Hon hefyd yw ei nofel gyntaf i oedolion. Cynhaliwyd noson lansio *Y Bocs Erstalwm* yn y Llyfrgell yng Nghaernarfon. Gwerfyl Pierce Jones, cyn bennaeth y Cyngor Llyfrau oedd yn cyflwyno'r noson gyda Mair, a'i chyn gydweithiwr yn y Llyfrgell, John Dilwyn Williams oedd yn holi ac yn sgwrsio gyda hi am ei gwaith.

Mae wedi ennill Gwobr Tir na-nOg bedair gwaith, yn ogystal â Gwobr Mary Vaughan Jones am ei chyfraniad i lenyddiaeth i blant. Rydym yma yn y pentref yn ei llongyfarch yn gynnes iawn.

**Penblwyddi arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Hefina Jones, Rhos Rhug ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ddiwedd Mehefin. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

Mae Lowri Non Parry, Tanwen Mair Fretwell a Buddug Pennant Jones wedi dathlu eu penblwyddi yn 18 oed yn ystod Mehefin. Llongyfarchiadau i chi genod, a braf cael dathlu diwedd arholiadau Lefel A hefyd. Pob lwc i'r dyfodol.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Anwen a Dr Gwion Williams, Noddfa ar enedigaeth Mabon. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu bach o dri.

**Capel y Rhos**
Yn ystod mis Mehefin fe gollwyd aelod arall o'n plith. Yn dawel ym Mhlas Hedd, bu farw Mrs Jane Olwen Pritchard, 36 Nant y Glyn, yn 92 mlwydd oed. Roedd yn weddw i Mr Eric Wyn Pritchard a fu farw fis Awst llynedd. Gyda'n gweinidog, Y Barchg Nerys Anne Griffiths yn gwasanaethu, cynhaliwyd ei hangladd yn y capel ar 3ydd Mehefin. Fe'i claddwyd gyda'i gŵr ym Mynwent Cymuned Llanllyfni. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf unwaith eto â'r merched Nerys a Tracey a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Cafwyd achlysur hapus iawn ar 24ain o Fai pan briodwyd Bethan a Siôn. Merch Arwyn a Jackie Roberts yw Bethan ac mae'n wyres i Eirlys a Goronwy Roberts, Nant y Glyn. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Barchg Nerys Anne Griffiths a'r organydd oedd Mr Gethin Griffith. Dymunwn ddyfodol hapus iawn a phob bendith i'r cwpwl ifanc.

**Oedfaon mis Gorffennaf:**
7fed Gorffennaf – Y Parchg John Pritchard
14eg Gorffennaf – Y Barchg Nerys Griffiths, ein gweinidog
21ain Gorffennaf – Dr Huw Tegid Roberts
28ai Gorffennaf – Y Barchg Olwen Williams

Ni chynhelir oedfa yn ystod mis Awst.

**Hafan Elan**
Yn ystod y sesiwn Bingo ddiwedd Mai, cawsom glywed Lloyd Owen, 13 Hafan Elan yn canu'r emyn Calon Lân. Mae'n bwriadu cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Pob lwc iddo yno.

Cawsom ddiwrnod ardderchog eto wedi ei drefnu gan Elizabeth yn gwledda yng Nghaffi Coed y Brenin, Bethesda. Diolch i'r staff yno ac yn arbennig i Wendy y gogyddes ac i Elin ac Amy am weini arnom. Oddi yno ac i gyngerdd Tonic yn Galeri, Caernarfon lle cawsom orig ddifyr yng nghwmni'r canwr Gwilym Bowen Rhys.

Dymunwn ddiwrnod arbennig, hapus iawn i Beryl Ellis, 24 Hafan Elan fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar 16eg Gorffennaf. Mae Beryl yn anhygoel o ifanc ei chorff a'i meddwl, a hi sy'n gyfrifol am wneud paned i bawb sy'n gwneud cardiau bob pnawn Mawrth ac wedyn ar fore Mercher yn y Bingo! Mwynhewch y dathlu efo'r teulu Beryl a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Llongyfarchiadau calonnog i holl blant a phobl ifanc y pentref ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd ym Meifod yn ystod wythnos y Sulgwyn. Roedd hi'n wythnos wych o gystadlu, a safon uchel iawn ymhob cystadleuaeth. Mawr yw'r diolch i'r Urdd am yr holl brofiadau gwerthfawr sy'n cael ei roi, a hynny drwy weithgaredd a cherddoriaeth bob blwyddyn.

**Taith Gerdded er budd Clefyd Y Siwgr**
Fe lwyddodd Henri Bolton o Lanrug i godi £210 trwy gwblhau y Diabetes Wellness Walk yn Lerpwl, a hynny ddydd Sul 19eg Mai gyda'r arian i gyd er budd yr elusen 'Diabetes Wellness.' Gwych iawn Henri, a llongyfarchiadau mawr i ti ar godi swm mor anhygoel.

**Profedigaeth**
Rydym yn anfon ein cofion at deulu Mr Peter Darwood, 53 Glanffynnon a fu farw'n ddiweddar yn dilyn gwaeledd hir. Cydymdeimlad dwysaf â'i wraig Eurwen, ei fab Michael, Rhian ac Ian wyres ac ŵyr a Lilia fach, cannwyll ei lygaid. Rydych yn ein meddyliau.

Bu farw Mr Derek Evans, Kuantan, Bryn Moelyn, yntau wedi bod yn wael am amser hefyd. Gŵr annwyl y ddiweddar Iona. Danfonwn gofion cynhesaf at Ian ac Anthea, Aimee a'i gŵr a'r gorwyrion bach, oedd yn annwyl iawn iddo. Rydym yn meddwl am y teulu yn y cyfnod anodd yma.

**Gig Yws Gwynedd**
Cafwyd noson lwyddiannus yn Nhafarn Penbont ar 24ain o Fai gyda'r elw er budd Clwb Pêl-droed Llanrug. Llawer o ddiolch i Yws Gwynedd a'r band, Magi Tudur ac Achlysurol am yr adloniant ac i Donna Taylor am y gwaith trefnu unwaith eto. Roedd hi'n noson wych a phawb wedi mwynhau.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Donna am drefnu nosweithiau a digwyddiadau arbennig yn y pentref gydol y flwyddyn.

**Merched y Wawr**
**Cyfarfod Mis Mai**
Ar Nos Fawrth, 14eg Mai, estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau i 'Gyfarfod Blynyddol' y Gangen. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad gyda Susan yn cyfeilio. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iris, Anwen a Megan ac anfonwyd cofion at y tair ffyddlon. Yn hynod drist, ers ein Cyfarfod Blynyddol 2023 rydym wedi colli dwy aelod annwyl a gweithgar sef Menna a Margaret.

Yn ddiymdroi aethpwyd ati i ddewis Swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor a bu'n un o'r Cyfarfodydd Blynyddol cyflymaf gyda phawb yn cynnig parhau yn eu swyddi. Wedi sawl blwyddyn fel Gohebydd y Wasg, dymunai Ann Ifans drosglwyddo'r awennau a diolchir i Gwenda Roberts am gytuno i gymryd y rôl gyda Mary Roberts yn Is-Ohebydd. Cafwyd crynodeb drylwyr o weithgareddau difyr Medi 11 – Medi 14 Blwyddyn 2023. Diolchwyd i bawb fu'n helpu yng Nghaffi'r Urdd, yn arbennig Bethanne, Ann Lloyd a Pat. Dan faner Mercher y Wawr bu sawl aelod ynghlwm â'r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.

**11eg Mehefin**
Trefnwyd "Gwibdaith a Bwffe" i Nefyn. Gwnaed trefniadau i ymweld ag Amgueddfa Forwrol, Llŷn. Cawsom gip ar hanes cyfareddol yr ardal gyda phob math o drysorau i'w gweld – arteffactau morwrol, offer pysgota, peintiadau llongau a hen fapiau gyda ffotograffau o hanes merched y môr. Cafodd sgerbwd merch ei ddarganfod yn 2013 o dan furiau'r Amgueddfa, wedi ei chladdu rhwng 1165 ac 1770 mewn bedd-gist. Diolchwyd i ferched yr Amgueddfa am y ffilm arbennig am hanes Nefyn – orig hynod ddifyr a hanesyddol. Gyda diolch i Eryl am holi perchnogion adeilad newydd chwaethus 'Caffi Ni', cawsom fwynhau 'Bwffe Cartref' bendigedig a phawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Dymuna Ann Ifans ddiolch o waelod calon am y planhigyn rhosyn lliw bricyll bendigedig am ei gwasanaeth fel Gohebydd y Wasg gan wybod y bydd yr Ohebiaeth yn gadarn yn nwylo Gwenda Roberts a Mary Roberts.

**Cangen Llanrug**
Cafodd Cangen Llanrug ei sefydlu yn 1975. Byddwn yn 'Dathlu'r Aur' yn 2025. Mae Phyllis ac Ann Lloyd yn ddwy o'r aelodau gwreiddiol o'r Pwyllgor Cyntaf gyda 66 o aelodau yn ymuno. Rydym 'yma o hyd' yn un o'r canghennau mwyaf o ran nifer ac yn sicr yn un o'r canghennau mwyaf cyfeillgar.

**Taith Gerdded**
Ar y 10fed Gorffennaf, cynhelir 'Taith Gerdded Rhanbarth Arfon'. Byddwn yn cwrdd yn Neuadd Tregarth am 1.00 y pnawn ac wedyn cerdded ar hyd y Lôn Las i Glwb Rygbi Bethesda am baned a theisen am £3, cyn dychwelyd i Dregarth. Mae croeso i rai sydd ddim yn dymuno cerdded ddod yn syth i'r Clwb Rygbi am baned a theisen.

**10fed Medi**
Cynhelir ein cyfarfod cyntaf wedi gwyliau'r Haf yn y Sefydliad Coffa am 7.30pm yng nghwmni Aled Davies, gydag orig 'Dros Ben Llestri'. Cofiwch fod croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r gangen gyfeillgar hon.

# Ifaciwis y Waun

Chwech oed oeddwn i pan dorrodd y rhyfel allan ym mis Medi 1939. Ychydig wythnosau ynghynt roeddwn wedi mynd ar fy ngwyliau i dŷ fy Anti Jane yn Nolgellau. Wedi cyrraedd y tŷ dyna lle roedd Anti Jane ar ben cadair yn y gegin gefn yn cadw llawer o bacedi siwgr ar y silffoedd, a minnau'n gofyn pam roedd hi angen yr holl bacedi a meddai, "Wel mae'n edrach yn debyg fod 'na ryfel mawr yn mynd i ddigwydd a bydd yn anodd cael dim byd, felly mae pawb yn hel a chadw be fedra nhw."

Ddiwedd yr wythnos galwodd Yncl Tom, brawd fy mam i fynd a mi adre i'r Waunfawr. Roedd Tom wedi graddio o'r Brifysgol ym Mangor ac fel llawer un arall wedi methu cael gwaith yn ei faes ei hun. Roedd amryw o'r hogiau wedi mynd i ddreifio a chondyctio'r bysiau, ond bu Tom yn lwcus i gael gwaith hefo Silckocs, cwmni blawd anifeiliaid ac wedi cael car i fynd o gwmpas ffermydd Sir Feirionnydd, ac yn y car hwnnw y dois innau adre ddiwedd yr wythnos.

Pan gyrhaeddais y tŷ doedd neb adre ond Annie Davies yn y siop. Hithau'n dweud fod Mam wedi mynd i'r ysgol gan eu bod yn disgwyl plant bach o Lerpwl ddod i aros yn y Waunfawr gan fod peryg i Lerpwl gael ei bomio. Newidiais fy nghôt oren a rhoi hen gôt chwarae amdanaf a mynd am yr ysgol. Roedd y lle yn ferw gwyllt â llond y lle o bobl a phlant. Wedi'i bawb gyrraedd, roedd yn ofynnol i'r bobl dderbyn un neu ddau o'r plant i'w cartrefi. Deuthum o hyd i Mam yn ddigon handi, ac ymhen ychydig daeth Rene Pengamfa ati a dweud, "Mrs Jôs, 'dach'i wedi bod yn lwcus a chael hogan fach lân, ddel!" Mam yn ateb, "Carrie y ferch fach ydi hon!" Roedd Rene wedi bod i ffwrdd am gyfnod yn dysgu mynd yn nyrs a heb fy ngweld ers amser.

Er fy mod yn fy nillad chwarae roeddwn yn edrych yn well na phlant Lerpwl. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi dod o ardal Scotland Road, un o'r llefydd gwaethaf yn y ddinas ac yn edrych yn flêr a budur. Ymhen ychydig anfonwyd pawb i un o'r ystafelloedd i gael *'Gas Mask'.* Un du hyll mewn bocs â llinyn i'w gario dros yr ysgwydd gefais i. Ond roedd y plant o dan bedair oed yn cael *'Gas Mask'* coch â'r enw ar hwnnw oedd y *'Mickey Mouse Mask!'* – a minnau â'r hen beth du hyll hwnnw! Anfonwyd yr ifaciwis at y Doctor Hughes ym Modlondeb i gael archwiliad ac i wared â'r llau oddi arnynt. Yn ystod yr archwyilio, dywedwyd i silff ffenestr parlwr y Doctor gael ei chrafu â enwau rhai o'r plant Lerpwl. Yn ogystal â'r ifaciwis, cawsom ninnau hefyd ambell frechiad rhag afiechydon yr adeg honno.

Fe rannwyd plant Lerpwl i wahanol gartrefi ac am gyfnod roeddynt yn rhannu'r Ysgol efo ni. Plant y Waun yn y bore, a'r ifaciwis yn y pnawn; a'r wythnos wedyn yr ifaciwis yn y bore a ninnau yn y pnawn. Roedd yn well gen i fynd i'r ysgol yn y bore, gan ein bod yn cael mwy o amser i chwarae yn y pnawn. Yn ddiweddarach agorwyd ysgol arall ar gyfer yr ifaciwis yn y Festri gyda athrawon o Lerpwl wedi dod yno i'w hyfforddi. Byddai llawer o luniau lliwgar o waith plant Lerpwl i'w gweld ar barwydydd y Festri yr adeg honno.

Er fod plant Lerpwl â ysgol eu hunain ac yn cael addysg yn Saesneg, buan iawn y daethant i siarad Cymraeg, ond cael ein gorfodi i ddysgu'r Saesneg roeddem ni, ac mae'n dda hynny neu fuaswn innau fel llawer heb ei dysgu. Pan fyddwn yn siarad Saesneg â un ohonynt ac yn teimlo braidd yn chwithig wrth feddwl am ambell air fyddai angen, byddwn yn dweud, "*My English is awful – but it's better than your Welsh!"*

Lle poblgaidd gan blant Lerpwl oedd 'Siop Anti Leus', Bod Arthur. Roedd Anti Leus yn gampwraig ar wneud crempogau, â hwythau wrth eu boddau yn mwynhau crempogen â llwyaid o fêl arni.

Cofiaf un noson glywed curo mawr ar ddrws y cefn a Mam yn prysuro i'w ateb. Pwy oedd yno ond Mrs Parsons, sef mam-yng-nghyfraith fy Anti Nel Lerpwl a'i brawd Mr Moleneux. Roedd golwg flinedig ar y ddau, a meddai Mrs Parsons, *"Can you please put us up for the night – the whole street has been bombed, there isn't a house left, and we had to come as we are!"*

Doedd ganddynt ddim o gwbl efo nhw ac roedd golwg wedi styrbio ar y ddau. Daeth Mam a nhw i'r tŷ ac wedi cael tipyn o'r hanes, gwneud tamed o swper iddynt. Roedd y ddau ar lwgu a meddai Mam wrthyf, "Gofyn iddyn nhw os fasa 'nhw'n lecio chwanag o frechdan." Minnau'n dweud na wyddwn sut i ofyn yn Saesneg a hithau'n dweud, "Gofyn fel hyn, *Would you like some more butties*?" *"*BYTIS?" medda finna, "BYTIS? – tydw'i ddim am ofyn peth fel'na; siawns nag oes ganddyn nhw well gair na bytis!" "Wel gofyn iddyn nhw fel hyn 'ta, "*Would you like some more bread and butter*?" "Mi dria'i fel'na 'ta, ond ddim bytis!" Derbyniodd y ddau y cynnig bron cyn i mi orffen gofyn. Roedd yn amlwg nad oedd yr un ohonynt wedi cael bwyd ers oriau.

Bu Mrs Parsons yn aros efo ni am gyfnod a chafwyd lle i'w brawd gyda Mrs Mair Roberts yn rhif 4. Dol Erddi.

Pan ddaeth y rhyfel i ben, dychwelodd rai o'r teuluoedd yn ôl i Lerpwl a Phenbedw, ond arhosodd y mwyafrif ohonynt oedd wedi colli eu cartrefi yn y bomio yma yn y Waunfawr. Canlyniad i hyn oedd iddynt gartrefu mewn bro hollol Gymraeg ac ymhen dim aeth iaith yr eglwys dros nos bron yn Saesneg a llawer o'r eglwyswyr pybyr yn digio a dod yn aelodau o'r capel.

Yn eu plith roedd gŵr o'r enw Mr Butt, a gwelodd hwn ei gyfle a chynnig pris o £50 am y tyddynod gwag ar y llethrau. Fe brynodd amryw o'r tyddynod anghysbell a gwnaeth elw da drwy eu gwerthu i rai o'r bobl ariannog oedd wedi colli eu cartrefi yn ystod y bomio. Erbyn y 1950au cynnar, roedd rhai o'r hen dyddynod gwaetha'r modd, yn eiddo i ddieithriaid, oedd ond yn ymweld â'r ardal am ychydig wythnosau yn yr haf.

Er hynny, roedd llawer o'r ifaciwis ddaeth i'r ardal adeg y rhyfel wedi dysgu Cymraeg a dod yn Gymry da, ac roedd ganddynt atgofion melys am eu tymor yn y Waunfawr.

**Carrie Prys Owen**

## Cynllun Adfywio Lleol Bro Peris

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Wedi proses ymgysylltu yn 2022 a gwrando ar farn pobl lleol, mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth a blaenoriaethau pob cymuned ar gyfer y dyfodol.

I ddechrau sefydlu trefniadau lleol i sicrhau bod y Cynllun Ardal Bro Peris yn ddogfen waith fyw gyda phrosiectau yn cael eu gweithredu, cynhaliwyd cyfarfod ddydd Iau 6 Mehefin 2024 yng Nghanolfan Gymunedol Llanberis. Cyfarfu llawer o grwpiau a Chynghorwyr lleol i drafod y cynllun a rhannu'r datblygiadau a'r materion diweddaraf ym mhob un o'u hardaloedd ar draws Bro Peris, sy'n cynnwys Waunfawr, Llanrug a Deiniolen ayyb.

Cytunodd y grwpiau i gydweithio ar draws yr ardal ac i gyfarfod eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn i gwblhau'r cynllun. Bydd grŵp newydd - Partneriaeth Dyffryn Peris - sydd wedi'i ffurfio trwy gefnogaeth gan Lowri Hedd Vaughan a GwyrddNi, yn sbardun pwysig ar gyfer datblygu cymunedol yn y blynyddoedd i ddod.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cynllun gweithredu drafft Bro Peris, neu i gymryd mwy o ran, cysylltwch â Mark Gahan, swyddog cymorth cymunedol Bro Peris: MarkGahan@gwynedd.llyw.cymru

# Ysgol Dolbadarn



Diolch i Dr Leesa am ddod i drafod ei swydd efo disgyblion Dysgu Sylfaen. Roedd pawb wedi mwynhau.




Daeth Sam Ward a'i ffrindiau o Climate Cymru i siarad am Natur efo disgyblion Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1. Diolch Sam.



Daeth criw Prosiect Abi i addysgu iaith arwyddion Cymru i ddisgyblion Derbyn a Blwyddyn 1.



Cafodd disgyblion Dysgu Sylfaen hwyl ar eu trip diweddar i Barc y Sipsi.

Fferyllwyr Llŷn
Eich Fferyllydd Lleol | Your Local Pharmacist
Fferyllfa I Ellis Jones, Stryd Fawr, Llanberis
Oriau Agor:
Llun i Gwener: 9 - 6pm
Sadwrn: 9 - 4pm
*ar gau bob dydd rhwng 12.30 a 1pm
01286 800113
fferyllwyrllyn.co.uk

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
01286 672898



**Tyddyn Teg**
**Bwyd - Tir - Pobl**
**LLYSIAU LLEOL FFRES**
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# CAEATHRO

**Capel**
Ar y 7fed o Orffennaf, bydd gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Nerys Griffiths am 2.00pm. Ar yr 21ain o Orffennaf, bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig Megan Williams, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Gwellhad buan**
Anfonwn ein dymuniadau gorau a gwellhad buan i Joe Roberts, 5 Erw Wen, wedi iddo gael clun newydd yn ddiweddar yn Ysbyty Wrecsam. Braf eich gweld yn ôl o gwmpas y pentref mor sydyn. Gwellhad buan hefyd i Marian Hughes, Tŷ Mawr, wedi iddi gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm yn ddiweddar.

**Penblwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Gill a Gwyndaf Evans, Tremarfon, Rhos Bach, sydd wedi dathlu penblwyddi arbennig ddiwedd mis Mehefin. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu!

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i holl blant a phobl ifanc y pentref a'r cyffiniau yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni, yn cynnwys Deio, Tyn y Coed, a chwaraeodd y trwmped gydag ensemble Ysgol Bontnewydd; Begw, Cefn Y Gof, a ganodd gyda chôr buddigol SATB Ysgol Syr Hugh Owen; ac Eldra, Cefn Y Gof, a oedd hefyd wrthi ar y trwmped gyda band pres Ysgol Bontnewydd. Da iawn bawb!

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Dr Helen Jones, Maes Y Coed, yn dilyn ei phrofedigaeth o golli ei chymar ffyddlon, Roy, yn ddiweddar.

**Clwb Garddio Caeathro**
Brynhawn Mawrth, 14eg Mai, cyfarfu aelodau'r Clwb Garddio yng Nghanolfan Antur Waunfawr, Waunfawr. Roedd Aled Jones a rhai o weithwyr yr Antur yno i'n croesawu ac i'n tywys o amgylch yr ardd.


Yn yr ardd, tyfir llysiau a ffrwythau yn cynnwys riwbob, cyrens duon, mefus ac afalau. Defnyddir yr afalau, riwbob a mefus i wneud seidr; a gwneir gwirod o'r cyrens duon. Gellir archebu'r holl gynnyrch ar ei siop ar lein, Perllan y Fro.

Cawsom ymweld â'r ddau dwnel poly, lle tyfir mefus a thomatos; a chael gweld rhai o'r criw yn brysur y tu allan yn plannu pwmpenni a fydd ar werth yn ystod mis Hydref.

Difyr oedd mynd i'r ystafell lle cynhyrchir y seidr a chael eglurhad o'r broses o wneud y ddiod.

Ar ddiwedd y prynhawn cawsom baned a darn o fara brith yr Antur. Diolch yn fawr iawn i bawb yn yr Antur am y croeso cynnes.

## Gwobr Harddwch




Fel roedd y Cyfnod Clo yn dod i ben, penderfynodd Ella Owen o Fethel y byddai'n hoffi gwneud rhywbeth gwahanol i'w gwaith llawn amser mewn swyddfa, ac aeth ar gwrs i Gaer i ddysgu sut i drin aeliau. Ar y cychwyn roedd yn llogi cadair mewn gwahanol salons er mwyn magu profiad a phenderfynu a oedd gobaith o lwyddiant. O'r cychwyn cyntaf roedd pethau'n argoeli'n dda, a dilynodd hithau wahanol gyrsiau yn y grefft ledled y wlad.

Mae erbyn hyn wedi sefydlu ei busnes ei hun – The Brow haus – ac yn cynnig amrywiaeth o driniaethau harddwch i'r wyneb yn ogystal ac i'r aeliau. Yn gynharach eleni cafodd ei henwebu ar restr fer 'Gwobrau Harddwch a Gwallt y Deyrnas Unedig', Ddiwedd Mai cynhaliwyd y rownd derfynol yn y gystadleuaeth, a daeth Ella yn chweched ym Mhrydain.

Llongyfarchiadau i Ella am ei mentergarwch a'i llwyddiant haeddiannol.



# Deri'r Allt Wen (Coed Dinorwig) – ai dyma eu diwedd?

Dyma olygfa sydd wedi bod yma ers yr oes rhew olaf, dros 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae coedwig dderw fel hyn yn olygfa eithaf prin yng Nghymru, coedwig heb ddefaid i'w phori a'i difetha. Roedd derw hanner ffordd i fyny'r Wyddfa cyn dyfodiad defaid.

Ond mae'r coed dan fygythiad anferth - na nid gan y defaid ond gan y geifr gwyllt. Mae criw anferth yn byw yng nghoed Dinorwig ac yn bygwth eu dyfodol. Fel popeth byw, mae coed yn marw, ac felly rhaid wrth goed newydd i lenwi'r bylchau. Ond ni fydd coed newydd yn cael cyfle i dyfu gan fod y geifr yn bwyta'r egin goed pob gwanwyn.

Mae derwen yn cynhyrchu mes pan yn 30 i 40 mlwydd oed. Gall cannoedd neu hyd yn oed filoedd o fes ddod o un goeden ond dim ond **un** ohonynt wnaiff dyfu yn dderwen aeddfed i gymryd lle'r fam goeden. Un yn marw ac un yn byw.

Felly, ai ni fydd y genhedlaeth olaf i weld yr olygfa wych yma?

Mor arbennig ydy'r goedwig yma fel ei bod





dan warchodaeth deddf gwlad, ond dydi'r ddeddf yn dda i ddim o'i hanwybyddu. Mae Coed yr Allt Wen yn meddu ar statws *Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)* ac felly yn haeddu cadwraeth ffurfiol ac y dylid ei amddiffyn yn unol â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

Dyma nhw, dros hanner cant o eifr, ac fel y gŵyr pawb, mae gafr yn bwyta popeth, yn enwedig tyfiant ifanc blasus. Dim ond gofyn i drigolion Dinorwig sydd raid i chi i gael gwybod am y difrod yn eu gerddi. I'w cadw allan rhaid wrth ffens gref wyth troedfedd - ie, wyth troedfedd gan gystal ydy naid gafr.

Ond nid y derw newydd yn unig sy'n ei chael hi ond pob danteithfwyd gan gynnwys rhisgl y coed hŷn.

Dyma nhw ar eu ffordd yn ôl ar hyd y rheilffordd ar ôl gwledda drwy'r dydd.

Mae llawer yn gwirioni wrth weld y geifr heb sylweddoli cymaint y bygythiad i'r goedwig. Fe aeth lluniau geifr Llandudno o gwmpas y byd mor gyflym â'r Cofid!

Nid yng Nghymru'n unig maent yn distrywio cynefinoedd. Ceir ymgyrchoedd mawr drwy'r byd cyfan i'w rheoli - o Seland Newydd, i Ewrop, i America ac ynysoedd drwy'r byd i gyd.

Felly, mae dewis i'w wneud yn d'oes – parhad y goedwig neu reoli niferoedd y geifr?

***Gwyndaf Huws***

# Ar ben arall i'r lein

Dyma ni yng nghanol Mehefin, a dydi'r 'sgota byth wedi gafael ynddi fel y dylai. Does yr un brithyll môr nag eog wedi dod i'r rhwyd. Rhyfedd ynte, gan fod nifer fawr o adroddiadau'n dal i ddod i law am y nifer fawr o'r pysgod mudol yma sydd ar hyd y Fenai; ond does yr un wedi mentro eto i'n hafonydd. Yr unig reswm o bosib yw'r tywydd annaturiol o oer sy'n dal o'n cwmpas. Brynhawn heddiw, 11eg Mehefin, tydi thermomedr yr ardd ond prin yn dangos 10 gradd pan ddylai hi fod o gwmpas 17. Mae'r hen bysgod yn gwybod yn iawn be sy'n mynd ymlaen; ond yn y diwedd, fe fydd galwad natur yn eu gorfodi i ffarwelio â'r Fenai a rhedeg i'r afonydd. Efallai y dof ar draws un neu ddau bryd hynny.

Araf iawn yw hi eto ar yr afonydd gyda'r brithyll brown, ond mae tipyn o hwyl ar adegau ar y llynnoedd. Da oedd gweld rhai unwaith eto'n troi am Gwm Silyn. Mae'r brithyll werth chweil yno: gwir bysgod gwyllt llynnoedd yr ucheldir. Daeth un sgotwr o Gaint i flasu ein dyfroedd, a chefais ddisgrifiad manwl o'i fwynhad o sgota'r Dywarchen a Chwm Silyn.



**Brithyll Cwm Silyn, a ddaliwyd gan enwair Colin Slattery o Caint**

Er trafferthion Padarn, ac fel Cymdeithas sy'n berchen ar hawliau eang ar y Llyn rydym yn bryderus dros ben am yr hyn sy'n mynd ymlaen o gwmpas y lle. Mae'r chwyn, sy'n brysur ymledu ac yn ei gwneud bron yn amhosib pysgota darnau eang o'r dyfroedd, yn cadw rhai o'r ffyddloniaid draw. Ond mae yna rai'n dal ati fodd bynnag, ac ar adegau'n cael eu gwobrwyo gyda thipyn o frithylliaid arbennig yn yr hen le. Dyma i chi un da.



**Brithyll pwys Padarn, a ddaliwyd gan Frank Jones, Llanfaglan**

Unwaith eto wrth gwrs, seren y sgota yw Llyn y Dywarchen. Ydi, mae'r criw sy'n gofalu am y stocio a'r cychod yn haeddu'r ganmoliaeth uchaf am eu gwaith gyda'r cynllun stocio arbennig. Mae'r lle'n denu sgotwrs o bob cyfeiriad am fod daliadau'n cynnwys nifer helaeth o frithyll yr enfys at y tri pwys 'ma. Pwy all beidio â chael ei ddenu yno? Ac ydi, mae'r lle'n denu mwy na physotwyr cyfreithlon hefyd. Mae'r broblem yn gwaethygu unwaith eto o ran y rhai sy'n malio dim am drefn sgota na mwynhad eraill. Malio dim am neb, a dim yn aelodau chwaith! Cawn weld be fydd ymateb yr heddlu i ymddygiad bygythiol fel hyn. Ond wrth gwrs, gobeithio bod y rhai sydd wrthi'n ymwybodol o'r ffaith eu bod yn torri'r Gyfraith ac y gallant golli eu ceir neu faniau.

Yn anffodus, mae rhyw elfen go fygythiol a di-drefn yn ymledu trwy'r fro, a'r rhan fwyaf ddim i wneud â thrigolion lleol. Un enghraifft yr ydw i fy hun wedi sylwi arno yw'r hyn sy'n mynd ymlaen ar Lyn Padarn a rhannau o bentref Llanberis. Mae'r lle fel syrcas ar adegau – a neb i weld yn gwneud dim i atal neu leihau'r broblem. Un enghraifft ddaeth i sylw llawer oedd fideo a dynnwyd gan un o drigolion Stryd Fictoria o griwiau yn mynd am yr Wyddfa am 1.30 y bore. Twrw a gweiddi cywilyddus, ond mae peth fel hyn yn amlwg yn dderbyniol yng ngolwg rhai!

Y mis diwethaf, mi wnes i fentro cyfeirio at y gwahanol fudiadau sy'n codi o gwmpas y lle 'ma sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd. Pa ymdrech mae'r rhain yn ei gwneud i atal y problemau sy'n amlygu yn lleol? Fel y gwelai i bethau, dim byd o gwbl, gan fod llygru ein dyfroedd yn dal i waethygu. Enghraifft diweddar arall i chi ydi Llyn Nantlle: dyma un o berlau pysgodfaol Cymru, ond ers rhyw flwyddyn bellach rydym wedi sylwi bod y gwair ar wely'r Llyn yn marw, a rhyw orchudd llysnafol yn gorchuddio'r cerrig. Ni fuom yn hir cyn sylweddoli be oedd gwreiddyn y broblem – gorlif carthion crai sy'n cael ei ollwng drwy afonig fechan Plas Baladeulyn. Y rheswm am hyn wrth gwrs yw bod gor-bwysau ar y gwaith trin ym Mhenygroes: mae'n rhaid i'r budreddi fynd i rywle … a'r lle hwnnw ydi Llyn Nantlle



**Carthion Nantlle, ar gwair sy'n marw. Be yw enw'r gwair gwey'r llyn?**

Mae rhai wedi tynnu sylw at y grug sy'n diflanu o Gefn Du. Does dim esboniad wedi dod am hyn eto! Peth arall hefyd sy'n brysur ddiflannu yw'r wennol. Rydw i o gwmpas yr hen le 'ma yn aml, a dyma'r flwyddyn gyntaf i mi fethu â gweld gwenoliaid a'u campiau o gwmpas y Finiog. Eleni hefyd, mae caniad y gog wedi bod yn absennol o'm clyw. Ydi hyn yn cael ei ddysgu heddiw tybed? *'Mae'r gwcw'n cyrraedd yn Ebrill, canu ei chân ym Mai; yng nghanol Mehefin mae'n newid ei thiwn a Gorffennaf mae'n fflio i ffwrdd.'*

Un bach arall o'r siambr sibrydion i chi gnoi cil arno! Pwy o gwmpas y lle sy'n ymwybodol fod cynlluniau ar y gweill i osod paneli solar ar ran o wyneb Llyn Padarn a bod y cynllun gosod matiau 'jute' ar rannau o waelod y llyn wedi ail ddeffro?

Ond, a throi nôl at y gorffennol a hen enwau'r fro, pwy efallai sy'n gwybod ble mae 'Cwt Twm Sgwd' ar Lyn Padarn? Diwrnod o sgota ar Dywarchen am yr ateb cywir! Tydi Closs ddim yn cael cystadlu!

**Huw Price Hughes**





ECO'r Wyddfa

**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

Hefin Jones Pantmwyn, Llanrug
01286 673838 hefsj@aol.com

# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod Ebrill 16eg, 2024

1. Estynwyd croeso i bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**2. Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod 19eg Mawrth 2024 fel rhai cywir**.

3. Ystyriwyd os ydi Cyngor Cymuned Llanrug am ddatgan diddordeb cychwynnol mewn cymryd y llain tir sydd wrth ymyl y Lôn Groes yn dilyn cyfarfod cynhaliwyd 25ain Mawrth, 2024.

Cyfeiriwyd at gyfarfod a gynhaliwyd gyda swyddogion Y Sefydliad Coffa, ac yn sgil y cyfarfod yma **penderfynwyd** i'w roi yn eitem benodol ar agenda cyfarfod nesaf o'r cyngor.

Cafwyd trafodaeth faith am y datblygiad arfaethedig a'r posibilrwydd o'i ddefnydd. Roedd yn ofynnol i'r cyngor cymuned ystyried os oedd am ddatgan diddordeb cychwynnol i brynu'r tir.

**Penderfynwyd**: Peidio dangos diddordeb ym mhryniant y tir oherwydd y rhesymau canlynol.

1) Doedd dim sicrwydd faint fyddai cost y tir
2) Roedd y prosiect yn mynd i fod yn rhy fawr i'r Cyngor Cymuned allu ymdopi ag ef.
3) Fe fyddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned fenthyca swm sylweddol o arian, nid yn unig brynu'r tir ond i'w ddatblygu ar ôl ei brynu. Byddai hyn yn golygu byddai'r Cyngor angen benthyg yr arian ac yn golygu cynnydd sylweddol yn y dreth cyngor i ad-dalu'r swm ynghyd a llog.
4) Roedd y Cyngor a diddordeb beth fydd yn cymryd lle ar y tir er lles y gymuned.

4) **Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.**

Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

a) Derbyn cyfrifon 2023/2024.
b) Adolygwyd y gyllideb ar gyfer 2024/2025
c) Angen ail edrych ar y trefniadau/asesiad risg ariannol.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

5) **Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd.**

6) **Derbyniwyd adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Lanrug a Chwm y Glo ar Gyngor Gwynedd. (Copïau i'w cael gan y Clerc)**

7) **Derbyniwyd Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**.

Adroddwyd fod y gwaith o adnewyddu rhan o ffens Pwll Moelyn i fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

8) **Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Bwyd a Llesiant.**

Ymysg y materion a drafodwyd oedd:

a) Cytundeb gyda Fareshare wedi ei gytuno a'i dalu am flwyddyn arall o'r 1af o Ebrill 2024.
b) Digon o gyllideb ar ôl i dalu am tua thri a hanner mis o wyau a bara gan obeithio y gallwn fanteisio ar gyfleoedd grantiau.
c) Cytunwyd i edrych fewn i ymuno â Mantell Gwynedd, y Clerc i holi ac i wneud y trefniadau.
d) Nodwyd fod un cais wedi dod i mewn am grant oddi tan gynllun y grant disgresiwn ar gyfer unigolion. Trafodwyd ffurf i hyrwyddo'r cynllun eto a chytunwyd i anfon llythyr at bawb sydd yn derbyn y pecynnau bwyd, i hysbysebu ar ein gwefan a Facebook, a llythyru'r ysgolion.
e) Atgoffwyd fod angen llenwi ffurflen asesiad risg ar weithio'n unigol.
f) Atgoffwyd fod angen i rai gwblhau y cwrs glendid bwyd.
g) Nodwyd fod cynrychiolydd o Fareshare yn dod i gario allan yr ymweliad blynyddol ar 19eg Ebrill.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

9) **Derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Ymysg yr eitemau a drafodwyd oedd:

1) Ar ôl i'r broses tendro ddod i ben mae Roberts and Owen Cyf., Penygroes wedi derbyn y cynnig i wneud y gwaith i drin 20 cofeb anniogel yn y fynwent erbyn 21ain Mai
2) Gwaith arall i ddod: arwyddion newydd ynglŷn â pharcio ar y glaswellt mewn tywydd gwlyb, parchu'r fynwent a riportio difrod, gweithredu ar fesurau ail-gylchu newydd Llywodraeth Cymru, a thrwsio ffens wrth ochr blociau E ac F.
3) Wedi adolygu rheolau'r fynwent a'u cadarnhau am 24/25; penderfyniadau ar sut i weithredu ar fesurau ail-gylchu newydd Llywodraeth Cymru mewn ffordd resymol ac Ymarferol.
4) Er cofnod: blaenoriaethau am 23/24 wedi'i chwblhau (heblaw am fabwysiadu polisïau gwyrdd a bioamrywiaeth arbennig y Cygnor); blaenoriaethau am 24/25 wedi eu cyhoeddi a'u derbyn yng nghyfarfod o'r Cyngor llawn ar 16eg Ionawr 2024.

**Penderfynwyd:** derbyn a diolch am yr adroddiad.

10) **Derbyniwyd Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch**.

a) Pwyllgor Hamdden a Bwyd wedi ystyried asesiad risg gweithio yn unigol.
b) Pwyllgor y Fynwent - am ateb y gŵyn am barcio ar y glaswellt mewn tywydd drwg trwy greu arwyddion i rybuddio ymwelwyr am hyn.
c) Dwy gŵyn blinderus wedi'u derbyn diwedd mis Mawrth.

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

11. **Ceisiadau Cynllunio**.

Rhif y cais: C24/0266/23/AC

Diwygio amod 2 a 3 o ganiatâd cynllunio gwreiddiol C21/1132/23/DT. Pen Y Graig, Lôn Ceunant, Ceunant.

**Penderfynwyd**: Dim gwrthwynebiad.

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o gofnodion Cyfarfod Mai 7fed Mai 2024

**Cofnodion 9fed Ebrill 2024**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir.

**Materion o'r Cofnodion**

**Cysgodfa Bws Dinorwig:**

Nododd y Clerc fod sawl cŵyn wedi ei derbyn erbyn hyn, ond mae'r adeiladwr yn bwriadu cychwyn ar y gwaith yr wythnos yma, yn dilyn gorffen y gwaith sydd ganddo ar hyn o bryd.

**Gohebiaeth a Materion Eraill**

**Cais Ariannol:**

Derbyniwyd llythyr yn datgan fod parti canu ynghyd ag unigolyn o Ysgol Penisarwaun, wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Rhanbarth ac yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, Maldwyn. Yn arferol, ar gais, byddwn yn cyfrannu tuag at gostau teithio neu logi bws. Gan mai ond un cais a dderbyniwyd, penderfynwyd cyfrannu £500 i'r Ysgol tuag at y gost, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt ym Meifod.

**Cynllunio**

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

***C24/0274/18/DT*** *– 2 Tai Arthur, Penisarwaun*.

Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell aer "Vaillant arro Therm plus 5KW" yng nghefn yr eiddo – Dim gwrthwynebiad.

***C24/0309/18/LL*** – Parc Gwledig Padarn.

Gwelliannau i'r adeilad presennol i gynnwys dymchwel ac ail godi estyniad ochr a gwybodaeth dehongli – Dim gwrthwynebiad.

***C24/0300/18/DT*** – 4 Carreg y Garth, Rhiwlas.

Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell aer yng nghefn yr eiddo – Dim gwrthwynebiad.

***C24/0275/18/DT*** – 24 Y Ddôl, Bethel.

Dymchwel darn un llawr cefn ac ochr bresennol yr eiddo a chodi estyniad deulawr i gefn ac ochr yr eiddo yn ei le. Gwrthwynebu, gan y byddai caniatáu'r cais yn cymryd lle parcio 2 gar i ffwrdd o'r tŷ, a pharcio yn brin ar y stâd fel y mae.

***C24/0276/18/LL*** – Hen Lyfrgell, Stryd Fawr, Deiniolen.

Adnewyddu hen Lyfrgell Deiniolen, i'w defnyddio fel Neuadd Gymunedol, gydag estyniad yn y cefn i ddarparu toiled hygyrch gyda chyfleusterau newid babi, swyddfa, cyfleusterau cwnsela a gwella mynediad cadair olwyn. – Dim gwrthwynebiad.

***C24/ 0261/18/TR*** – Deiniolen. Uwchraddio trawsnewidydd HV a pholyn i Bolyn H. – Dim gwrthwynebiad.

**Llwybrau**

**Llwybr Inclein Deiniolen:**

Wrth fynd o Lôn Garnedd ar y llwybr yma, ac wrth gyrraedd yr ail giât fochyn, mae'r postia llechi wedi cael eu clymu gyda 'cable ties' rhag i anifeiliaid fynd trwodd, ond nid oes neb arall yn gallu mynd trwodd chwaith. Angen sylw i'r giât yn iawn.

**Archwiliad 2023–2024**

Yn dilyn archwiliad mewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2024, bu i'r Clerc dderbyn y ffurflen yn ôl wedi ei harchwilio gan yr archwilwyr mewnol yn y Cyngor Sir. Yn dilyn archwiliad, cafwyd eu bodloni ar sail y canfyddiadau fod

## Y Gornel Ddarllen

Dyma i chi 10 uchaf (Cymru) Palas Print ar gyfer mis Mai.

Mae ‘na dipyn o gynrychiolaeth o awduron ardal yr *Eco* yn y 10 uchaf yma

- pobl y fro wedi bod yn brysur yn sgwennu a chyhoeddi llyfrau.


Braint oedd cael bod yn noson lansio Y Bocs Erstalwm gan Mair Wynn Hughes, a chyfarfod awdures a fu yn ddylawnad mawr araf fel darllenydd ifanc. Cafwyd llawer o hwyl gyda dathliad cyhoeddi Arwana Swtan a’r Sgodyn Od yn ystod yr Ŵyl Fwyd, a bydd Angie Roberts yn cynnal digwyddiad yng ngardd Palas Print ar 13eg Gorffennaf i ddathlu cyhoeddi’r gyfrol.


A dyma’r 10 llyfr ddaeth i frig y rhestr yn Palas Print ym mis Mai.

Mwynhewch y darllen!

1. **Y Bocs Erstalwm; Mair Wynn Hughes**
2. **Arwana Swtan a’r Sgodyn Od; Angie Roberts**
3. **Pen-blwydd Hapus?; Ffion Emlyn**
4. **Tir; Carwyn Graves**
5. **Cerdded Lerpwl y Cymry; Gari Wyn**
6. **Trigo; Aled Emyr**
7. **Drws Anna; Dafydd Apolloni**
8. **Sarn Helen; Tom Bullough**
9. **Cant a Mil o Freuddwydion; Rhian Lloyd Williams**
10. **Parti Priodas; Gruffudd Owen**















y Cyngor yn rheoli arian a chyllid i safon sydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor. Rhannwyd yr adroddiad gyda’r Cyngor, a chroesawyd yr adroddiad unwaith eto eleni. Cymeradwywyd y ffurflen, a’i harwyddo gan y Cadeirydd, ac ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol. Bydd y Clerc yn paratoi i yrru’r ffurflen ymlaen at Archwilwyr Cymru ynghyd â’r holl ddogfennau perthnasol.

**O gwmpas y bwrdd**

Cafwyd cŵyn fod enw tŷ – ‘Minffordd’ – yn Ninorwig wedi ei newid i ‘The View’. Penderfynwyd cysylltu ag Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd.

Mae Lôn Fawr Rhiwlas angen ei chwynnu a’i thacluso o’r top i’r gwaelod. Y Clerc i gysylltu â’r tîm Tacluso i ofyn iddynt ei roi ar eu rhestr.

Mae tyllau o hyd yn y lôn ger Tŷ Mawr Cottages. Ysgrifennu eto at yr Adran Briffyrdd.

**Dathlu 50 mlynedd yn Gynghorydd Cymunedol**

Llongyfarchiadau mawr i Phyllis Ellis. Roedd yn dathlu 50 mlynedd ers ei hethol yn gynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen. Bu i Phyllis ddechrau ar ei rôl wedi’r ad-drefnu a fu ar lywodraeth leol, a hi oedd yr unig ferch ar y Cyngor y pryd hynny. Erbyn hyn, mae hi’n gwerthfawrogi gwaith y merched sy’n gynghorwyr gyda hi ar y Cyngor. Mae Phyllis wedi rhoi hir oes i’r ardal, ac yn enwedig i bentref Penisarwaun. Dros y pum deg mlynedd y mae hi wedi eistedd ar y Cyngor, mae wedi gweld sawl cynghorydd yn mynd a dod, ond dim ond 3 Clerc mae’r Cyngor wedi ei weld yn ystod y cyfnod. Diolch yn fawr iawn i chi, Phyllis. Mae popeth rydych wedi ei wneud, ac yn ei wneud, i’r gymuned yn amhrisiadwy.

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# Garddio

**GORFFENNAF**

Dal i ddisgwyl am yr haf ydan ni acw. Mis Mai oer a hyd yma dydy mis Mehefin fawr gwell. Cofiwch mae'r gwair, fel popeth yn y borderi, yn dal i dyfu, felly mae angen torri'r lawnt a thocio'r blodau sydd wedi darfod. Mae'n debyg eich bod yn gyfarwydd â'r *Chelsea Chop* ddiwedd mis Mai, sy'n cyd-fynd â sioe *RHS Chelsea.* I wneud hyn roedd angen torri blodau lluosflwydd (*perennial*) yn ôl ym mis Mai, i gael blodau ymhellach ymlaen yn yr haf, ar blanhigion mwy cryno. Yn gynnar ym mis Gorffennaf gallwch drio'r '*Hampton Hack*' sy'n cyd-fynd â'r Ŵyl Arddio yn *RHS Hampton Court Palace*. I wneud hyn rhaid torri planhigion lluosflwydd sy'n blodeuo'n gynnar, bron i'r llawr ar ôl iddynt flodeuo. Mae mynawyd y bugail *(geranium)* gwydn (*hardy*), *Alchemilla mollis,* mantell y forwyn a'r *Salvia nemorosa 'Cardonna'* (gwerddonell) yn ymateb yn dda i'w torri fel hyn, ac o'u bwydo a'u dyfrio cewch domen o ddail ffres cryno a chwaneg o flodau i harddu'ch gardd.



**Salvia nemorosa**



**Mantell y forwyn**




Mae hadau'n hynod o hir yn egino eleni a'r ciwcymbrau a'r tomatos hefyd yn araf iawn yn tyfu yn y tŷ gwydr. Er gwaetha'r tywydd oer, hyd yma torrais 5 ciwcymbr bach wrth i mi ysgrifennu hwn ganol mis Mehefin, ac roedden nhw'n hynod o flasus efo letys a slots o'r ardd. Dwi angen plannu mwy o letys gan fod y rhai sy'n barod bron a darfod! Peidiwch â gadael ciwcymbrau yn y tŷ gwydr i sefyll mewn dŵr, neu mae'n beryg iddynt bydru. Wrth ddyfrio perlysiau, dyfriwch ben bore, cyn gwaith neu cyn mynd a'r plant i'r ysgol, dydyn nhw ddim yn hoffi bod yn wlyb gyda'r nos ac yn debygol o wywo a nychu os ydynt yn wlyb bryd hynny.

Anaml iawn gawson ni gyfle i eistedd allan i fwynhau'r ardd a'r mynyddoedd sydd o'n cwmpas, heb fod yn gwisgo cot fel petasai'n fis Hydref! Erbyn mis Gorffennaf gall fod y borderi'n edrych ychydig yn ddiflas yn enwedig efo'r tywydd anwadal rydan ni'n ei gael ar hyn o bryd. Debyg eich bod chi, fel finnau wedi cael eich temtio i brynu pethau yn y ganolfan arddio, nôl ym mis Ebrill, ond mae'r planhigion rheiny wedi chwythu eu plwc erbyn mis Gorffennaf. Mae'n demtasiwn i fynd yn ôl yno i lenwi bylchau a wyddoch chi beth, dydy hynny ddim yn syniad rhy ddrwg, oherwydd os ydynt yn blanhigion lluosflwydd mi fyddan nhw'n blodeuo eto'r flwyddyn wedyn.

**Tasgau**

**1.** Tacluswch farf yr hen ŵr [*clematis*] a dringwyr eraill a'u clymu fel bo'r angen. Mae'r mathau o farf yr hen ŵr efo blodau mawr a'r gwyddfid yn dod i binacl eu blodau ym mis Gorffennaf, ond gwnewch yn siŵr bod ganddoch fwa neu obelisg i gynnal eu coesau a bod y blodau i'w gweld yn y blaen a'r canol yn hytrach nag yn cuddio ar ffens rhyngddoch chi a drws nesaf. Mae'r math Etoile *Violette*' yn hyfryd gyda blodau mawr piws.



**2.** Gallwch fentro rhoi planhigion fu'n tyfu yn y tŷ, allan dros dro. Mae'r cactws Nadolig/Pasg yn enwedig yn hoffi cael awyr iach. Ond cadwch lygaid allan am y malwod a'r gwlithod a gwnewch yn siŵr nad ydynt yn cael gormod o ddŵr os ydach yn eu rhoi allan yn eu soseri/potiau dal dŵr. Jest gwnewch nodyn yn y dyddiadur i'w dychwelyd i'r tŷ ym mis Medi.

**3.** Bydd angen bwydo planhigion yn yr ardd ac yn bwysicaf oll y rhai mewn potiau neu gynwysyddion. Fel rheol mae'r maeth o gompost di-fawn yn darfod ar ôl 8 wythnos felly bwydwch os ydach chi am rialtwch o liw a blodau drwy'r haf.

**4.** Daliwch ati i dynnu'r lladron o'r tomatos yn y tŷ gwydr, a dyfrio'n gyson, a'u bwydo efo gwrtaith hylifol unwaith mae'r blodau a ffrwythau cyntaf wedi datblygu.

**5.** Daliwch ati i gasglu eich pys pêr fydd hefyd yn annog y planhigion i ffurfio mwy o flodau. Planhigyn blwyddol ydy o, felly os yw'n cynhyrchu hadau mae'n arwydd i'r planhigyn stopio blodeuo. Mae llawr o blanhigion blodeuol yn ymateb yn dda i'w torri ar ôl iddynt flodeuo ac yn rhoi sioe newydd o flodau ac yn ymestyn y cyfnod blodeuo.

**6.** Er bod hi'n gyfnod prysur mae hefyd yn amser archebu bylbiau at y gwanwyn nesaf. Fe allai feddwl am lawer tasg waeth i'w gwneud wrth eistedd yn yr haul (neu o flaen y tân).

**7.** Does gen i ddim coed rhosod ond os oes gynnoch chi rai, dyma'r adeg i dynnu'r pennau marw'r rhosod yn gyson. Os ydach chi'n teimlo'n glên gallwch adael ambell un i ddatblygu'n egroes (*hips*) i'r adar gael gwledda. Mae'r rhosod megis '*Generous Gardener*', '*Roald Dahl'* a hen amrywiogaeth (*variety*) '*Madame Alfred Carrière*' yn blodeuo fwy nag unwaith dros fisoedd yr haf, felly'n ffordd dda o ymestyn y cyfnod blodeuo yn eich gardd.

**8.** Mae Gorffennaf yn amser da i blannu planhigion dwy flynyddol (*biennials*) megis bysedd y cŵn, nad af i'n angof (*forget me nots*), *Sweet William*, ceiniogau (*honesty)* neu flodau'r hwyr (*evening primrose*). *Er os* ydach chi'n lwcus mi fydd ambell un wedi hau eu hunain o gwmpas yr ardd. Does yna ddim ffasiwn beth a chwyn dim ond planhigion yn y lle anghywir meddan nhw. Rhaid cyfaddef bod gen i grug, celyn, bonet nain (*aquilegia), erigeron*, *centaura,* rhedynnau a bysedd y cŵn sydd wedi hau eu hunain hyd yr ardd. Da ydy natur! Mae'n waith hawdd i'w symud i ble rydach chi am iddynt dyfu. Dim planhigion dwy flynyddol? Na phoener, maent yn hynod o hawdd i'w tyfu. Heuwch yr hadau mewn compost graeanog ac mi wnânt egino o fewn wythnos i 10 diwrnod. Gallwch wedyn eu trawsblannu i botiau neu gelloedd unigol ac erbyn mis Medi mi fyddan nhw'n barod i'w plannu yn yr ardd. Mae'r pridd dal yn gynnes bryd hynny ac mi dyfith y gwreiddiau cyn y gaeaf, gan sicrhau blodau hardd erbyn y gwanwyn.

**9.** Casglwch y llysiau fel maen nhw'n barod, byddant lawr mwy blasus yn ifanc nac yn hen a gwydn. Rhewch beth bynnag allwch chi ddim eu bwyta, neu rhannwch nhw efo ffrindiau, teulu neu gymdogion.

***Rhosyn Mynydd***

# CEUNANT

**Dathlu Priodas Aur**

Llongyfarchiadau mawr i Julie a Den, Rhos y Grug, Ceunant ar eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**Profedigaeth**

Rydym yn meddwl am deulu'r diweddar Arfon Lewis a hunodd yn dawel yn ei gartref, Gelliod, Tan y Coed, Ceunant ar Fai 28ain. Gŵr annwyl Jean, tad cariadus Alison, Tim a Iona, a thaid tyner a balch Laura, Ioan ac Elin. Brawd hoff Carys, Ian a'i ddiweddar frodyr a chwiorydd, a brawd yng nghyfraith ac ewythr hoffus. Colled fawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Cydymdeimlad llwyraf â'r teulu i gyd.

# CHWILAIR MIS GORFFENNAF - TRAETHAU

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | I | N | A | S | D | I | N | Ll | E | Ll | A | I | M | Ff |
| A | C | E | W | T | Ch | B | D | A | F | Y | N | L | W | R |
| O | A | Ll | A | N | G | R | A | N | N | O | G | S | N | A |
| S | B | I | D | F | T | E | C | Dd | I | D | E | Y | T | P |
| B | E | N | Ll | E | Ch | G | R | W | B | R | L | B | I | O |
| L | R | A | T | N | Y | M | I | Y | A | M | O | A | N | R |
| Y | Ff | H | C | H | Th | A | C | N | E | Y | Rh | Y | L | Th |
| D | R | N | E | Y | I | M | I | C | T | W | R | J | T | D |
| F | A | G | I | C | Ch | T | E | A | R | E | S | O | R | I |
| U | W | L | N | P | O | R | Th | M | E | U | D | W | Y | N |
| H | D | S | E | O | S | P | D | L | A | Y | W | G | I | LL |
| Y | R | E | W | R | R | A | B | E | R | M | A | W | H | A |
| B | M | L | Y | Th | E | Ph | I | Ll | Dd | I | N | A | S | E |
| A | Th | W | Dd | O | B | G | P | O | U | T | R | P | O | N |
| T | E | R | N | R | A | N | N | G | R | A | I | G | Dd | U |

Wrth i'r gwyliau haf ddynesu, beth well na mwynhau diwrnod lawr ar lan y mor? Cewch draethau o bob math yng Nghymru. Traethau tywodlyd neu greigiog, traethau bach a mawr, rhai tawel a rhai llawn pobl. Mae traethau hardd i'w cael heb fod ymhell o fro'r Eco, tra bod rhai eraill hyfryd ychydig ymhellach i ffwrdd.

ABERFFRAW
ABERMAW
ABERSOCH
BAE TREARDDUR
BENLLECH
CEI NEWYDD
CEMLYN
CRICIETH
DINAS DINLLE
GRAIG DDU
LLANDDWYN
LLANGRANNOG
LLIGWY
MWNT
PORTHDINLLAEN
PORTHOR
PORTH MEUDWY
RHYL

**Tybed allwch chi ateb y cwestiynau canlynol:**

1. Ar ba draeth fyddech chi petasech yn eistedd yn Nhafarn y Tŷ Coch? 2. Ym mha draeth mae'r tywod yn chwibannu? 3. Am pa draeth mae'r grŵp Hergest yn canu amdani? 4. Am pa draeth mae'r grŵp Mynediad am Ddim yn canu?

Cewch yr atebion i'r chwilair a'r cwestiynau yn rhifyn nesaf yr Eco.

Cofiwch fod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | A | B | E | R | W | Y | D | Ff | S | G | Ŵ | Y | L | C | E | F | N | I | B |
| T | Ŵ | N | D | I | Ch | N | U | G | I | M | A | B | W | Ô | B | Dd | U | Ff | S |
| R | M | Y | Y | C | A | S | P | Ŵ | O | Y | S | I | A | D | U | H | E | G | V |
| O | E | F | L | V | S | I | E | Y | E | R | I | Ll | E | G | Y | L | Y | Ŵ | G |
| S | Ŵ | E | R | G | R | O | Ng | L | F | A | B | A | E | N | L | A | H | Y | L |
| C | T | N | A | Ŵ | O | E | G | F | R | U | Ŵ | T | R | B | S | D | O | L | R |
| L | D | E | V | Y | I | M | O | W | E | C | O | R | D | C | R | Ll | B | E | P |
| M | U | O | Ch | L | T | Ô | E | Y | N | T | Ff | E | L | N | V | E | T | L | A |
| A | F | I | D | Y | E | N | I | D | H | L | W | F | O | B | C | D | F | V | Dd |
| C | Y | S | T | G | Ll | K | S | C | I | Y | D | O | N | Y | M | H | E | I | N |
| L | T | A | F | W | Y | L | T | A | N | M | R | W | A | F | E | O | I | S | Y |
| U | R | O | C | Y | Dd | Ô | L | E | O | I | A | D | C | Ng | R | I | Ll | P | H |
| B | E | Ch | W | Ll | A | T | L | R | L | B | N | Ch | L | S | T | L | D | O | N |
| L | Ch | U | P | I | R | M | T | N | C | L | Ô | A | Y | D | W | Ff | A | R | B |
| O | Y | M | U | A | Ŵ | S | Y | A | Y | Th | F | R | Ŵ | N | B | O | D | Th | S |
| D | R | T | Ff | I | C | R | O | R | M | E | C | D | G | W | Ll | Y | A | C | I |
| A | M | C | Ll | D | A | Ff | D | F | R | U | Y | Ŵ | A | V | R | E | Ll | A | N |
| I | E | N | R | W | L | E | G | O | U | Ŵ | R | Ng | S | E | T | I | Th | W | D |
| R | G | Ŵ | Y | L | Y | D | Y | N | G | W | Y | R | Dd | R | Ch | S | B | L | A |
| S | E | S | I | W | N | F | A | W | R | D | O | L | G | E | Ll | A | U | S | R |

## CHWILAIR MIS MEHEFIN - GIGIAU, GWYLIAU A SIOEAU

Mae'r tywydd yn gwella ac yn codi awydd ar rywun i fynd allan i fwynhau. Tybed fuoch chi neu fyddwch chi'n mynd i un o'r digwyddiadau sy'n y chwilair yn ystod y misoedd nesaf?

GŴYL CANOL DRE
GŴYL CEFNI
GŴYL ELVIS PORTHCAWL
GŴYL FWYD CAERNARFON
GŴYL GOMEDI MACHYNLLETH
SIOE FRENHINOL CYMRU
SIOE MÔN
SIOE NEFYN
TAFWYL
Y SIOE FAWR
GŴYL Y DYN GWYRDD
GŴYL Y GELLI
GŴYL Y GWYLLIAID
ROC Y DDÔL
SESIWN FAWR DOLGELLAU

Yr un sioe yw'r **Sioe Fawr** a **Sioe Frenhinol Cymru**. Dyma'r un digwyddiad gafodd ei gynnwys ddwy waith yn y chwilair, ond o dan dau enw gwahanol.

Tybed gawsoch chi gyfle i fynd yno i fwynhau?


HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

SIÂN GWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON



01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
sian.gwenllian@senedd.cymru

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd, o gronfeydd cyhoeddus

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

# DINORWIG

**Tymor yr Haf**
Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Heuldro'r Haf wedi bod a'r dydd yn dechrau byrhau. A ninnau'n dal i ddisgwyl am haf. Cawsom ddigon o wynt a glaw, a'r tywydd yn oer iawn, yn enwedig yn y boreuau a'r hwyr. Rhaid gofalu cario côt law bob tro yr aiff rhywun allan, rhag ofn cawodydd trymion. Does ond gobeithio y bydd gwell tywydd yn wynebu'r plant pan ddaw eu tymor ysgol i ben ac edrych ymlaen am wyliau. Clywais y gog unwaith yn unig eleni, ac erbyn hyn mae'n fwy na thebyg ei bod wedi dychwelyd i hinsawdd cynhesach.

**Tâl yr 'Eco'**
Mae amser tâl blynyddol am yr 'Eco' wedi pasio, ac ambell un wedi peidio adnewyddu. Ond rhaid cydnabod fod ein papur bro yn fargen hynod am ddim ond £10 y flwyddyn, a chael gwybodaeth am hynt a helynt a llwyddiannau gwahanol drigolion pentrefi'r fro. Diolch i'r rhai sy'n gwirfoddoli o'u hamser i gynhyrchu'r papur yn rheolaidd bob mis.

**Yr Allt Ddu**
Mae'r dynfa yma yn cynyddu bob mis, a does dim yn ymddangos y gellir ei wneud i leddfu'r broblem. Dyma unig adnodd Dinorwig bellach, a'r ysgol, capel ac eglwys wedi cau. Mae Deiniolen, i lawr y ffordd, yn llawer mwy ffodus, gydag ysgol, eglwys a Thŷ Elidir i gynnal gwasanaeth ar y Sul. Ond faint tybed sy'n manteisio ar hyn ac yn mynychu'r eglwys neu wasanaethau? Colled fawr, mi gredaf, yw colli Ysgol Sul yn ein gwahanol gymunedau.

**Gwasanaethu yn Nhŷ Elidir**
Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni, ac y mae'r dyddiadau a'r amseroedd wastad yn cael eu harddangos yn ffenestr Tŷ Elidir. Gwnewch sylw o'r amseroedd cychwyn, gan eu bod yn amrywio o wythnos i wythnos. Ni fydd gwasanaethau'n cael eu cynnal yn ystod mis Awst.

30ain Mehefin: Y Parchg John Pritchard, Llanberis am 3.30
7fed Gorffennaf: Y Parchg John Pritchard, Llanberis am 3.30
14eg Gorffennaf: Mr John Roberts, Llanfairpwll am 3.30
21ain Gorffennaf: Y Parchg Olaf Davies, Môn am 2.00
28ain Gorffennaf: Y Parchg O. R. Jones, Môn am 5.00
Awst – dim gwasanaethau
1af Medi: Y Parchg Anna Jane Evans, Caernarfon am 2.00
8fed Medi: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni am 3.30
15fed Medi: Mr Arwel Williams, Caernarfon am 3.30
22ain Medi: Miss Eleri jones, Bangor am 3.30
29ain Medi: Mr Eurfryn Davies am 5.00
8fed Hydref: Mr Dafydd Iwan, Caeathro am 2.00

**Damwain**
Deallwn fod Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr 'Eco' wedi cael damwain, a dymunwn adferiad iechyd llwyr iddo.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at unrhyw un o'r ardal sy'n dioddef anhwylder. Gwellhad buan i chi oll.

**Eisteddfod yr Urdd**
Cefais fwynhad mawr o wylio'r Eisteddfod ar S4C eleni. Diolch am y trefniant ardderchog. Ni chredaf i mi golli unrhyw ran o'r Eisteddfod. Gresyn fod y glaw wedi amharu ar ddechrau'r wythnos, ond diolch am well tywydd yn dilyn. Dim ond paned, bwyd ac Eisteddfod fu hi yma trwy'r wythnos! Llongyfarchion i bawb o'r fro a fu'n llwyddiannus.

**Etholiad**
Mae'n hen bryd i'r Etholiad fynd heibio. Does dim i'w glywed gan arweinwyr y prif bleidiau ond rhedeg ar ei gilydd. Y fantais fawr yw gallu troi'r teledu neu'r radio i ffwrdd.

**Cysgodfan**
Mae'r gysgodfan bron wedi ei chwblhau, a diolch i'r ddau weithiwr a fu wrthi'n gweithio'n ddiwyd, ac i Gyngor Gwynedd am ymateb mor gyflym i'r angen am ei thrwsio. Mae'r arwydd braidd yn uchel, a does ond gobeithio na fydd Morus y Gwynt yn ei hyrddio'n ormodol.






# NANT PERIS

**Cyngerdd**
Roedd hi'n noson i'w chofio. Eglwys Peris Sant dan ei sang, enillydd Cân i Gymru y llynedd yn difyrru, a'r gynulleidfa wedyn yn ei morio hi'n canu cytganau caneuon poblogaidd.

Cafwyd awr a mwy o ganu gwefreiddiol gan Dylan Morris. Mae gan yr unawdydd o Bwllheli amrywiaeth eang o ganeuon yn ei raglen; ac wrth gwrs cafwyd '*Patagonia*' – y gân a ganodd i ennill y brif wobr yng nghystadleuaeth Cân i Gymru 2023 – i gloi ei gyfraniad.


Iola Owen, Caleb Jones, Ross Craigmile a Dylan Morris

Wedyn, yn unol â dymuniad Iola Owen, a drefnodd y noson, ymunodd y gynulleidfa dan arweiniad Caleb Jones, sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon ond sydd wedi canu cyn hyn mewn cyngerdd yn yr Eglwys, i ganu detholiad o ganeuon poblogaidd. Paratowyd taflen o eiriau cytgan y caneuon, ond roedd llawer yn gwybod geiriau'r penillion hefyd ac yn cyd-ganu efo Caleb; a bu morio mawr ar y gân olaf, anthem fythol-wyrdd Hogiau'r Wyddfa, '*Safwn yn y Bwlch*'. Cyflwynydd y noson oedd Dei Tomos.

Roedd cyfraniad y *maestro* dawnus, Ross Craigmile, wrth y piano yn allweddol hefyd. Mae o bob amser yn barod ei gymwynas, yn cyfeilio a pherfformio mewn cyngerddau yn y pentref. Roedd pawb yn unfrydol i'r noson fod yn llwyddiant, a chafwyd elw sylweddol o £1,376 er mwyn paentio ac addurno'r eglwys.

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Gorffennaf**
7fed Gorffennaf – 9:30am Cymun Bendigaid
14eg Gorffennaf – 4:00pm Gwasanaeth Teulu
21ain Gorffennaf – 9:30am Boreol Weddi
28ain Gorffennaf – 9:30am Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir gwasanaeth bob bore Mawrth am 9:30am



## DEINIOLEN



**Profedigaeth**
Yn dawel, wedi salwch byr, yn Ysbyty Gwynedd yng nghwmni ei theulu annwyl o 3 Maes Gwylfa, Deiniolen bu farw Priscilla May Collins.

Gwraig annwyl Mike; mam a mam yng nghyfraith arbennig Amanda a Brian, Donna a Trefor, Rodney a Iona; nain gariadus a balch Kyle a'i gymar Nia, Alicia a'i chymar Aeron, Kelsey, Karina, Thomas, Lowri a Cara; naini dyner Liam, Hunter, Nanw, Nidian, Ela a Nyla; chwaer, chwaer yng nghyfraith, modryb a ffrind hoffus i lawer. Cofion at y teulu yn eu profedigaeth.

Yn dawel yn ei chartref yn Hafod Oleu, Deiniolen, bu farw Sheila May Evans. gwraig y diweddar Hugh; mam a mam yng nghyfraith gariadus Sue, Dave a Paula; nain annwyl Peter, Russ, Julie, Dan ac Ethan; nain falch, chwaer yng nghyfraith, modryb a ffrind arbennig i Margaret. Colled enfawr i'w theulu a ffrindiau.

**Gŵyl Deiniolen 2024**
Cafodd Gŵyl Deiniolen ei chynnal eto eleni o'r 9fed i'r 15fed o Fehefin gyda wythnos llawn o weithgareddau a hwyl, er gwaethaf heriau mawr y tywydd.

Dechreuodd yr wythnos gyda coroni'r frenhines a'i chwrt, a chyngerdd yn nghwmni Seindorf Arian Deiniolen, Lois Eifion, cor arwyddo lleisiau llawen ac Elin Dafydd.

Cafwyd disgo nos Lun yn iard yr ysgol feithrin, helfa drysor nos Fawrth, a the bach yn nghwmni Annette Bryn Parri dydd Mercher. Bu'n rhaid gohirio y mabolgampau nos Iau oherwydd y tywydd, yn ogystal â'r carnifal mawreddog ddydd Sadwrn, gan obeithio ail-drefnu'n fuan.

Cynhaliwyd cystadlaethau pool a darts fel rhan o'r ŵyl a llongyfarchiadau mawr i Chris Thomas ar ennill y pool ac i Iestyn Jones ar ddod yn ail. Bu diddordeb mawr yn y darts gyda 38 yn cymryd rhan a bu rhai ei ymestyn dros ddwy noson, yr enillydd yn y diwedd oedd Gerald Hughes a Richard Jones yn ail. Diolch i bawb am gefnogi.

Diolch i'r pwllgor am eu gwaith caled iawn eto eleni.

**Diolchiadau**
Dymuna Fred, Gloria, Paul, Debbie, Beverly a Barry John ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mab, brawd ewythr a brawd yng nghyfraith annwyl, caredig a hoffus.

Hunodd Mark yn heddychlon ym mhresenoldeb ei deulu yn Ysbyty Gwynedd ar y 26ain o Fawrth.

Dymunwn hefyd ddiolch i'r Canon Dylan Williams am y gwasanaeth yn Eglwys Crist Llandinorwig, ac hefyd i Mrs Eleri Bean yr organyddes. Diolchwn hefyd i Roberts & Owen, Penygroes, am eu gofal arbennig a chymorth gyda threfniadau'r cynhebrwng.

Gwerthfawrogwyd yr holl ymweliadau gan deulu, ffrindiau a chymdogion. Diolchwn hefyd am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniwyd er cof am Mark.

Mae'r rhoddion er cof am Mark wedi eu cyflwyno i Eglwys Crist Llandinorwig ac i'r Uned Dialysis Arennol, Ysbyty Gwynedd.

**Deiseb**
Mae deiseb yn mynd o gwmpas, ac mae hi hefyd yn y siop leol yma'n Neiniolen er mwyn cadw a pharchu yr enwau gwreiddiol ar ponciau chwaral Dinorwig. Mae hyn yn bwysig i gofio er mwyn parchu ein tadau a'n teidiau a weithiodd yn y chwaral, a holl gyn chwarelwyr chwaral Dinorwig.

**Y Post Symudol**
Mae amser a diwrnod Post Symudol Deiniolen wedi symud i ddydd Gwener 12.30-1.15pm

**Adroddiad y Cynghorydd Elfed Wyn Williams**
Diolch i'r Pwyllgor Pentra am drefnu diwrnod y beicwyr yn ddiweddar; diolch i bwyllgor y Carnifal am drefnu wythnos o ddigwyddiadau; diolch i bwyllgor Caban Cynfi am ei gwaith caled.

Mae'r gwaith i ddatblygu hyb i'r pentre wedi cychwyn ar iard yr ysgol.

Mae tîm peldroed yn ail gychwyn yn y pentre gyda gemau cystadleuol yn dechrau ym mis Awst.

Diolch i Adra am dorri gwair Bro Deiniol yn ddiweddar ac i'r Cyngor am dorri gwair yn Mynwent Macpelah. Y gobaith hefyd yw y bydd Cae y Bwthyn wedi ei dorri cyn diwrnod y Carnifal.

**Eisteddfod yr Urdd 2024**
Cafwyd gwledd eto eleni gan blant a phobl ifanc Cymru, ac yn arwain y cyfan ar S4C oedd Trystan Ellis Morris. Mae'n gyflwynydd naturiol a hwyliog, ac yn cyfleu holl hwyl a chynnwrf yr eisteddfod i'r rheini oedd yn gwylio adref. Diolch Trystan.

**Clwb pêl-droed**
Mae ymgais i ail sefydlu clwb pêl-droed dynion yn Neiniolen gyda nosweithiau hyfforddi agored ar nos fercher am 6 yng nghae pob tywydd Ysgol Brynrefail.

Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno neu i gysylltu trwy'r cyfryngau cymdeithasol ar CPD Deiniolen.

**Cymorth Cristnogol**
Llwyddwyd i gasglu swm o £844.08 eleni yn Deiniolen tuag at Gymorth Cristnogol.

Diolch i bawb a fu yn rhannu a chasglu'r amlenni, a diolch i holl drigolion y pentref unwaith eto eleni am gyfrannu mor hael.





**Reid Beics Howel Wyn 2024, Beicwyr Eryri a Phwyllgor Pentra Deiniolen**
Cafwyd ddiwrnod gwerth chweil eto eleni a diolch i bawb am fynychu ac am gefnogi. Diolch i'r noddwyr i gyd a'r rhai a roddodd wobrau raffl.

# Beth sydd mewn enw?

Cysidrwch yr enwau hyn: Winston Jerome, Clement Watson, Anthony Grey, Harold Belles, Harold Sedden, Edward Pantony, James Cundy, Margaret Stephenson, John Coates, Tony Corsgadden, Gordon Souter, David Mount.

A oes gan unrhyw un ohonynt gysylltiad â bro'r 'Eco'? Mae'n debyg y gellir dadlau fod pob un ohonynt wedi cael effaith ar fywydau trigolion y fro, ond hyd y gwn i, fu'r un ohonynt yn byw yn y fro. Efallai i ambell un dalu ymweliad sydyn ar rhyw achlysur arbennig. Dal yn y niwl? Roeddwn innau hefyd pan ddarllenais y rhestr gyntaf, ond wedi cael eglurhad, roedd y cyfan yn hollol amlwg. Mae pob un ohonynt yn cario cyfenw morwynol eu mamau; yr enw a ddiflannodd pan briododd mam pob un, a rhoi i ni Churchill, Attlee, Eden, MacMillan, Wilson, Heath, Callaghan, Thatcher, Major, Blair, Brown a Cameron.

Deuthum ar draws yr enghraifft hon mewn erthygl yn sôn am wahanol gyfenwau, a'r ffaith fod rhai cyfenwau yn perthyn i ardaloedd arbennig tra bo eraill yn gyffredin ledled y wlad. Ond mae'r awdur yn eithrio Cymru ac i raddau, rhannau gogleddol yr Alban; a hynny oherwydd mai peth gweddol ddiweddar yw defnyddio cyfenw.

Fe wyddom, wrth gwrs, mai 'ap' a ddefnyddid yng Nghymru hyd at y ddeunawfed ganrif a hyd yn oed wedi hynny, ac i'r arferiad ddod yn ffasiynol yn ôl erbyn heddiw. Mae'r cyfenwau mwyaf cyffredin yng Nghymru yn deillio o 'ap' + enw bedydd. Aeth ap Ifan yn Bifan/Bevan; ap Huw yn Puw, ap Harri yn Parri/Parry, ap Robert yn Probert, ap Owen yn Bowen; heb sôn am enwau bedydd yn troi'n gyfenwau: Sion yn Jones, William yn Williams, Robert yn Roberts, Gruffudd yn Griffith/s. Ac yn aml iawn roedd brodyr o waed yn defnyddio cyfenwau gwahanol a hynny yn deillio o enw y tad. Gallai Edward ac Wmffra, oedd yn feibion i Robert Ifan, gael eu hadnabod yn swyddogol fel Edward Robert(s) ac Wmffra Ifan/Evan(s). Does ryfedd fod olrhain achau Cymreig yn gallu bod yn gymaint o gur pen! Ac yr oedd merched hefyd yn tueddu i gadw eu henwau morwynol ar ôl priodi.

Nid yw'r enwau Cymreig felly yn ffitio i batrwm awdur yr erthygl uchod. Nid yw'r Williamsiaid, er enghraifft yn perthyn i bentref arbennig na hyd yn oed i ardal arbennig o Gymru, mwy nac yw'r Jonesiaid, y Robertiaid na'r Ifansus.

Felly, mi euthum ati i droi'r patrwm wyneb i waered ac edrych ar yr enwau hollol ddiethr oedd yn bodoli yng nghanol yr enwau Cymreig yn ein bro. Heb oriau maith o waith ymchwil yn astudio hen lawysgrifau a holl gofnodion plwyfi, un dull eithaf syml oedd edrych ar y cyfrifiad cyntaf yn 1841. Mae'n nodi fod y person a gofnodir wedi ei eni o fewn y sir (Sir Gaernarfon fel yr oedd bryd hynny) neu y tu allan i'r sir. Dim llawer o gymorth a bod yn onest, a byddai'n rhaid disgwyl hyd 1851 i'r cyfrifiad nodi plwyf genedigol neu wlad enedigol pob person oedd yn byw o fewn y fro.

Ym mhlwyf Llanberis yn 1841 roedd yr enwau 'dieithr' canlynol: *Curry*, yn cynnwys dau deulu a chyfanswm o saith o unigolion. *Closs/Clofs*: pedwar teulu a chyfanswm o 22. Roedd yma hefyd *Francis, Solomon* a *Robyns*. (Rwyf yn anwybyddu'r enwau dieithr oedd yn ymwelwyr yn aros yng Ngwesty Fictoria).

Ym mhlwyf Llanrug yn 1841 roedd y canlynol: *Closs* (un teulu o dri), *Broome* (2) a *Howard* (1) yn gweini ym Mhlas Glangwna, *Boyston* (un teulu o 6), *Eames* (un yn unig), *Peters* (un teulu o 6) a *Chard* (un teulu o 6).

Ym mhlwyf Llanddeiniolen yn 1841 roedd *Jonathan* (un teulu o 6), *Jarvis* (un teulu o 7), *Peters* (dau deulu a chyfanswm o 5), *Mark* (un teulu o 6), *Ryan* (un teulu o 4), *Mytter* (unigolyn) *Clofs* (unigolyn) a *Tyson* (un teulu o 3).

Digon tebyg yw'r patrwm ddeng mlynedd yn ddiweddarach hefyd, gyda lleihad yn yr enwau dieithr yn Llanddeiniolen a chynnydd sylweddol ym mhlwyf Llanrug. Mae cynnydd o ddau yn Llanberis, ond Curry, Closs a Robyns yn aros. Dyma'r ystadegau:

Plwyf Llanberis 1851:- *Closs* (pump teulu a chyfanswm o 16) Roedd bron bawb wedi eu geni yn y plwyf, gyda dau yn unig yn Llandygai. *Kuff* (unigolyn wedi ei eni yn Iwerddon), *Robyns* (un teulu o dri) Roedd y penteulu wedi ei eni ym Meddgelert a dau yn Llanberis. *Curry* (un teulu o wyth) – y penteulu wedi ei eni yn Amlwch a'r gweddill yn Llanberis. *Weldon* (un teulu o wyth) – i gyd wedi eu geni yn Llanberis. Os oedd pob un o'r Weldon wedi eu geni yn Llanberis, mae'n syndod i mi fethu eu darganfod yn 1841, ond mae'n siŵr mai fy mlerwch i yw hynny.

Plwyf Llanrug 1851:- *Hunt, Broome, Groves* a *Wane*; unigolion i gyd wedi eu geni yn Lloegr, a'r tri olaf yn gweini ym mhlas Glangwna. *Baston* (teulu o dri wedi eu geni yn Guildford). Ai rhain yw'r *Boyston* yn 1841? *Clofs* (teulu o dri) – y penteulu wedi ei eni ym Metws Garmon a'r ddau arall yn Llanrug. *Francis* (teulu o bump) - y penteulu ym Môn a'r gweddill yn Llanrug. *Blackwell* (unigolyn o Dreffynnon). *Peters* (dau, gydag un o Lanrug a'r llall o Fangor). *Taylor* (unigolyn a aned yn Sir Gaernarfon. *Thorman* (teulu o bump) – y tad a'r fam o Landwrog a Llanbeblig a'r plant o Lanrug.

# Cofio Cau Allan Dinorwig, 1874



Daeth torf fawr ynghyd yn Llanberis ddydd Sul 23 Mehefin i gofio'r Cau Allan yn Chwarel Dinorwig ym Mehefin 1874 – a hynny drwy ganu emynau'r chwarelwyr a galw am warchod enwau Cymraeg creigiau, ponciau a sinciau Chwarel Dinorwig

Roedd gwaith y chwarelwyr yn beryglus iawn a'u hawliau yn brin, felly fe sefydlwyd Undeb y Chwarelwyr yn 1874, mewn ymateb i anfodlonrwydd cynyddol y gweithwyr. Mewn cyfarfod ar 27 Ebrill 1874 yn y Queen's Head yng Nghaernarfon fe sefydlwyd yr Undeb; ond roedd nifer o berchnogion y chwareli yn amharod i dderbyn ei fodolaeth.

Felly ganrif a hanner yn ôl ar 18 Mehefin, 1874 roedd y 'dydd Gosod' pwysig ac fe ddewisodd chwarelwyr Dinorwig rhwng cefnogi'r Undeb a mynd i weithio. Dewisodd 2,200 o'r chwarelwyr yr Undeb, ac un ar ddeg yn unig a wrthwynebodd.

O ganlyniad, cafodd tua 2,200 o chwarelwyr eu cloi allan o Chwarel Dinorwig ym mis Mehefin. Ar ôl pum wythnos, cytunodd y rheolwyr i dderbyn bodolaeth Undeb y Chwarelwyr.

Er mwyn talu teyrnged i'r chwarelwyr, trefnwyd digwyddiad yn Llanberis ar 23 Mehefin a daeth torf ynghyd wrth y llyn i weddïo dros y chwarelwyr a fu farw wrth eu gwaith. Roedd Seindorf Arian Deiniolen, Côr Phenrhyn a sawl yn arall yn cymryd rhan.



Plwyf Llanddeiniolen 1851:- *Ryan* (dau unigolyn ac un teulu o saith). Mae un o'r unigolion yn nodi Dulyn fel man geni a'r llall yn nodi Iwerddon. Mae'r ddau benteulu o Lanllyfni a'r gweddill o Landdeiniolen. *Huxley* (teulu o dri), a phawb wedi eu geni yn Llanbeblig.

Ymddiheuriadau am beidio cynnwys ardal Betws Garmon a'r Waunfawr yn yr uchod, ond roedd eu ffiniau hwy'n wahanol bryd hynny: Y Waunfawr yn rhan o blwyf helaeth Llanbeblig cyn cael ei sefydlu'n blwyf ar ei ben ei hun ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Betws Garmon hefyd wedi ymhelaethu ar ôl cael rhan o blwyf Llanwnda.
Bydd angen cryn dipyn mwy o amser i chwilio am yr enwau 'dieithr' yn yr ardaloedd hyn.

Y syndod yw mai prin iawn o'r cyfenwau dieithr hyn sydd wedi goroesi. Closs, mae'n debyg yw'r un mwyaf cyffredin, ond dwn i ddim a yw'n parhau'n gyfenw bellach, yntau enw canol yn unig. Cysylltwch os ydych yn dal i gario rhai o'r enwau uchod.

**Dewi Gwyrfai.**
Gyda diolch i Robert Williams, Waunfawr am fwy o wybodaeth am deulu Dewi Gwyrfai:

Mae'n debyg fod Margaret, mam Dewi Gwyrfai, yn ferch i Robert ac Ellen Jones, Yr Erw, Bontnewydd, neu Robert ac Ellen Jones, Bryngro, Rhosgadfan – y ddau gwpwl yn ffitio.

Roedd John Owen, tad Dewi Gwyrfai, yn frawd i Margaret Owen, hen hen nain i Bethan, fy ngwraig, cangen a'i gwreiddiau yn ddwfn yn ardal Waunfawr a Betws Garmon.


Roedd John Owen yn fab i David Owen (neu David Morgan) ac Elinor Jones, ei wraig. Rhieni Elinor oedd John Williams a Catherine, Treflan Isaf, Waunfawr. Ym Mhentre Bryn Eithin roedd David Morgan ac Elinor yn byw yn 1841 cyn symud i Weirglodd Dywyll, rhyw ganllath i ffwrdd ar y lôn sy'n arwain i Garreg Fawr.

Rhieni David oedd Morgan Owen a Margaret Humphreys, Ty'n Cae Newydd. Cafodd Morgan Owen ei ddewis yn flaenor yn Waunfawr yn 1818/1819 ond fe'i lladdwyd yn 38 oed yn chwarel Cefn Du fis Ebrill 1820 wedi i garreg lithro. (*Hanes Methodistiaid Arfon, Waunfawr a Beddgelert*, tud 35).

Roedd yr enw Morgan yn gyffredin iawn yn yr ardal yn adeg hynny fel enw cyntaf ac fel cyfenw – y mwyafrif yn debyg o fod â chysylltiad efo hen deulu Morgan, Yr Ystrad.

Bu i Dora (Dorothy), chwaer Dewi Gwyrfai, briodi Huw Robert Evans, mab Robert a Catherine Evans, Bwlch y Groes. Rhai o Ynys Môn oedd Robert a Catherine. Fe ymfudodd Hugh a Dora i Vermont am gyfnod ac yno cafodd eu plentyn cyntaf ei eni, ond roedd y teulu yn ôl yn Waunfawr erbyn cyfrifiad 1921 ac yn byw yn Cae Caled.

Erbyn 1939 roedd Dewi Gwyrfai yn weddw ac yn byw yn Gwynant, Waunfawr a Dora, ei chwaer, hithau'n weddw yn byw efo fo.


ADRODDIAD
EGLWYS A CHYNNULLEIDFA
MORIAH,
WAENFAWR,
AM Y FLWYDDYN 1908.
CAERNARFON:

Wn i ddim beth ddigwyddodd i Robert Owen, ei frawd. Ar gyfrifiad 1911, chwe blynedd wedi'r ddamwain roedd yn byw yn Glan Gwyrfai efo'i dad, oedd bellach yn weddw. Hefyd yn y cartref oedd Nel ei chwaer, Margaret ei chwaer a John, ei gŵr. Owen yw cyfenw pawb yn y cartref ond Robert, Mae o i lawr fel R.J. Owain, a fo sydd wedi arwyddo'r ffurflen ar ran ei dad.

**Compton House**
Gyda diolch hefyd i Gwilym Morris Jones am ychwanegu mwy o wybodaeth am deuluoedd Compton House. Dyma sydd ganddo i'w ddweud:

Deuthum o hyd i hen daflen o Gapel Moriah (Groeslon) a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1908. Yn y daflen mae enwau y rhai oedd wedi cyfrannu tuag at yr achos, ac yn eu plith mae dau o bobl oedd yn byw bryd hynny yn Compton House. Y ddau oedd, Sarah A Hughes a Hugh Roberts. Tybed mai brawd a chwaer oedd y ddau o weld y cyfenwau gwahanol? Yn y daflen o dan y pennawd, Rhestr o'r Cyfraniadau, mae'r geiriau canlynol: (Dynoda * rai nad ydynt yn Aelodau Eglwysig.)

O flaen enwau'r ddau ar y rhestr gwelir y symbol *. Dyma fel y cyfranodd Sarah a Hugh i'r achos yn 1908.

| | Y Weinidogaeth. | Y Ddyled. | Yr Eisteddleoedd. | Cyfanswm. |
|---|---|---|---|---|
| | £ s. d | £ s. d | £ s. d | £ s. d |
| *Hughes, Sarah A., Compton House | 0 1 0 | … | ... | 1 0 |
| *Roberts, Hugh, Compton House | 0 10 0 | … | 0 3 0 | 0 13 0 |

Rhai oedd yn byw yn Gwelfor (sef yr hen Compton House) yn ystod y 1950au oedd John R Jones a'i wraig. Roedd 'John R' fel y'i gelwid, yn flaenor yng nghapel Bethel y Waun. Ef ynghyd â Gwyrfai Jones, ('Gwyrfai Cilfechydd') fyddai'n codi canu yn y capel bryd hynny. Byddai'r ddau yn sefyll o bopty'r organ uwchben y pulpud ac yn siglo eu llyfrau emynau wrth arwain. Cofiaf fel byddai 'John R' yn dreifio hen Vauxhall mawr du, un â'r sbêr whîl ar gefn y trwmbal. Hefyd roedd yn diodde o ryw gyflwr ar ei drwyn oedd wedi mynd yn grwn a choch fel radish. Jini Owen, chwaer 'John R' yn ystod y 1920au fyddai'n cyfeilio ar yr harmoniwm yn yr Ysgoldy Bach y Groeslon.

Gyda diolch am ychwanegu mwy o wybodaeth am rai o gymeriadau'r gorffennol yn y Waunfawr. Cofiwch gysylltu ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol. Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com








# PENISARWAUN

**Eisteddfod Bentref**
Cynhelir ein Eisteddfod Bentref yn y Neuadd Gymuned ar nos Fercher, 17eg o Orffennaf am 6.00pm. Mae'r rhestr testunau wedi ei rannu ac ymarferion y plant wedi cychwyn bob nos Fercher.

Os nag ydych wedi derbyn rhestr testunau, cysylltwch â Caryl, Cae Corniog Bach. Edrychir ymlaen at noson hwyliog.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y noson Miri Mai gan sicrhau elw o bron i £200. Yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r mabolgampau oherwydd y tywydd anffafriol. Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr lwcus oedd:
1af - Eifion Harding
2il - Victor Jones

Enillwyr Clwb Cant Mehefin yw:
1af - Liz Jones
2il - Catrin Roberts, Pennaeth yr Ysgol

Mae croeso i unrhyw un ymuno â'r Clwb Cant am £12 o Fedi i Fedi. Dymunir diolch i bawb sydd wedi cefnogi ein gweithgareddau amrywiol er budd y gôst o redeg y Neuadd Gymunedol chwaethus sydd gennym yn y pentref. Cofiwch fod modd llogi'r Neuadd, yr Ystafell Gymuned a'r gegin an bris rhesymol. Cysylltwch â'r Trysorydd Glyn Jones 01286 870 433/07772 689 235.

Cynhelir Pwyllgor ym mis Medi i drefnu gweithgareddau i gymdeithasu a thynnu Clwb Cant.

**Gwellhâd**
Ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref. Gobeithio y ceir dywydd ffarfiol dros yr Hâf i godi'r galon.

**Prosiect Pum Mil**
Rydym wedi derbyn y newyddion arbennig bod ein cais ar gyfer Prosiect Pum Mil yn Festri'r Eglwys wedi bod yn llwyddiannus. Rydym nawr yn chwilio am dîm o bobol i fod yn rhan o'r prosiect, ac hefyd tîm o bobol hefo sgiliau i gwblhau'r gwaith - trydanwr, plymiwr, adeiladwyr, peintiwr ac ati. Os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o'r prosiect, cysylltwch hefo Rhiannon Jones neu Christine Anderton, neu trwy'r manylion ar y poster.

**Llongyfarchiadau**
Braf iawn oedd clywed enw Penisarwaun yn Eisteddfod yr Urdd ddiwedd Mai. Llongyfarchiadau mawr i barti unsain yr Ysgol ar gystadlu mor dda, ac i Myfi Hughes, Winllan, ar ddod yn drydydd trwy Gymru yn y gystadleuaeth Unawd Gitar Bl.6 ac iau - tipyn o gamp!

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Glenn Lamb, 7 Bryn Eglwys, sydd wedi mwynhau dathlu'r hanner cant gan edrych ymlaen at groesawu ei frawd William sy'n gweithio'n America i ymuno yn y dathlu.

Llongyfarchiadau hefyd i June Aubrey, Ysgubor Cae Corniog, ar ddathlu penblwydd arbennig ddechrau'r mis.

**Twrnament *European Golden Oldies Rugby***
Bu Eifion Harding yn cystadlu yn y twrnament rygbi yma yn Seville ddechrau'r mis fel rhan o dîm Y GOGS (Geriatrics o Gymru). Edrychwn ymlaen at glywed yr hanes.

**Eglwys Santes Helen Penisarwaun**
Gweinyddir yr Offeren Sanctaidd am 11.00 y bore ar y Suliau canlynol:
Mehefin 30ain
Gorffennaf 7fed, 14eg, 21ain a'r 28ain






# Ysgol Penisarwaun

**Eisteddfod yr Urdd**
Cafwyd diwrnod pleserus iawn yn yr Eisteddfod ym Meifod yn ystod hanner tymor. Aeth llond bws ohonom o Benisarwaun ar ddydd Llun yr Eisteddfod i dreulio diwrnod ar y maes ym Meifod ac i gefnogi'r Parti Unsain a Myfi fel unawdydd ar y gitar.



Llongyfarchiadau mawr i Myfi Lois am ei llwyddiant ar ddod yn drydedd drwy Gymru ar y Gitar. Gwnaeth ei gwaith yn wych a chafodd ganmoliaeth mawr gan y beirniaid. Da iawn Myfi!

Gwnaeth y plant i gyd eu gwaith yn arbennig iawn a phawb yn falch iawn ohonyn nhw. Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi, i bwyllgor yr Eisteddfod Bentref am eu cyfraniad ac i'r Cyngor Cymuned ac i gyfeillion yr ysgol am wneud yr holl drefniadau. Cafwyd diwrnod gwerth chweil a'r tywydd o'n plaid a phawb wedi mwynhau y profiad yn fawr.



**Ymweld â theatrau**
Cafodd disgyblion yr adran Iau gyfle i fynd ar daith i Venue Cymru yn ddiweddar i weld cynhyrchiad llwyfan o Awful Auntie gan David Walliams. Roedd pawb wedi mwynhau y perfformiad yn arw yn ogystal a'r profiad o gael mynychu theatr.

Taith i Pontio ym Mangor gafodd y disgyblion ieuengaf a hynny i weld Cerdyn Post o Wlad y Rwla. Unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau yn fawr.





**Swyddog cyswllt yr Heddlu**
Daeth PC Dylan Pritchard draw i'r ysgol unwaith eto i gynnal gweithdai gyda'r disgyblion. Sylweddau Sinistr oedd thema'r adran Iau y tro hwn a cawsom wers ddiddorol iawn yn dysgu am beryglon alcohol, toddyddion a sigarennau. Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen ddysgu am bobl sy'n ein helpu ac am waith y plismon. Roeddynt wrth eu boddau yn holi PC Dylan ac yn cael gwisgo i fyny.



**Eisteddfod Bentref:** Mae disgyblion yr ysgol yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Bentref. Diolch i anti Marina am hyfforddi'r unawdwyr i ganu ac i Anti Ann am hyfforddi'r llefaru. Rydym y gwerthfawrogi yn fawr. Mae'r plant yn brysur hefyd yn paratoi ar gyfer y cystadlaethau gwaith cartref. Mae pawb yn edrych ymlaen at gystadlu.

**Mabolgampau'r Ysgol** : Bydd y Mabolgampau yn cael ei gynnal ar gae'r ysgol brynhawn Mercher, 10fed Gorffennaf am 1.15p.m. - os bydd y tywydd yn caniatáu.





**Gwersi Beicio**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae disgyblion blwyddyn 6 wedi cael gwersi beicio drwy gynllun Diogelwch y ffordd Cyngor Gwynedd. Mae pawb wedi pasio lefel 1 a bydd y Swyddogion yn dychwelyd i gwblhau lefel 2 cyn yr haf.

Cafodd disgyblion blynyddoedd 3 a 4 wersi beicio gan gwmni Beics Antur yn ddiweddar. Cafwyd gwersi mewn grwpiau am bedwar diwrnod yn olynol a gwelwyd y disgyblion yn datblygu ei sgiliau beicio yn gyflym iawn dros y cyfnod. Diolch i Carwyn am ei amynedd ac am ddysgu rhai o'r disgyblion i reidio beic am y tro cyntaf. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw a chael tystysgrif i nodi eu llwyddiant.





**Gweithdai Drama Raga Rug**
Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol gymryd rhan mewn gweithdai drama yn yr ysgol gyda Mari o Raga Rug yn ddiweddar. Cafodd pob un plentyn fwynhad mawr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, pawb yn cynyddu yn eu hyder llafar ac amryw yn datblygu eu sgiliau perfformio. Bu'r disgyblion ieuengaf yn brysur yn creu storïau diddorol ar lafar tra bu disgyblion yr adran iau yn ysgrifennu sgriptiau, eu cyfarwyddo a'u perfformio. Cafwyd tridiau pleserus a chynhyrchiol iawn. Diolch i Mari am ei gwaith.



## PRYSURDEB PÊL-DROED BETHEL

Bu'n ddiwedd tymor prysur iawn i aelodau gwahanol dimau Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel. Weithiau yn lifrau y clwb – o dan 5 i dan 15 – neu yn lifrau tîm yr ysgol. Yn y twrnament diwedd flwyddyn , sy'n hanfodol i ariannu gweithgareddau'r clwb, denwyd 102 o dimau dros y ddau benwythnos. Roedd cystadleuaeth ar gyfer naw oedran, a digon o 'hot dogs' a da-da's i fwydo pawb. Diolch i Joe, Coed Bolyn, am gael defnyddio'r cae ar gyfer parcio. Hefyd y llu gwirfoddolwyr yn stiwardio, yn y gegin, dyfarnu, a chasglwyr sbwriel dros y pedwar diwrnod. Enillodd y tîm dan 14 Gwpan Saermaen H.T. Foulkes am yr ail flwyddyn yn olynol.

Diolch arbennig i'r noddwyr: J2O Plumbing, Recordiau COSH, Orik and Son, AB Cars, Tryfan Cabs, Saermaen H.T. Foulkes, Sbarduno, Anglesey Solar a Gwresogi'r Gogledd.

Gwahoddwyd timau dan 10, 11, 13 ac 14 draw i gyfleusterau ymarfer Clwb Burnley, a'u cynllun 'Burnley yn y gymuned'. Cawsant eu hyfforddi gan hyfforddwyr Academi Burnley am awr a hanner ac yna gwylio Burnley yn herio Newcastle. Diolch i Fws Bach Peris am gludo pawb yn ddiogel.

Yn lifrau'r ysgol bu'n benwythnos brysur i rai o'r chwaraewyr. Ymlwybro draw i'r Drenewydd yn gyntaf i rowndiau terfynol Cystadleuaeth 5 pob ochr Cymru. Colli 1-0 yn y rownd gynderfynol ond yn cipio'r 3ydd safle trwy Gymru – tipyn o gamp.

Noson o gwsg nerfus, ac yna ymlaen bore wedyn i Aberystwyth ar gyfer Cystadleuaeth yr Urdd. Y diwrnod cynt roedd Bethel wedi curo un tim 4-0. Yn Aberystwyth 0-0 oedd hi ar y chwiban olaf rhwng yr un ddau dim. Y gwrthwynebwyr enillodd ar giciau o'r smotyn, a hwy oedd y pencampwyr ddiwedd y dydd. Diolch i Tom Lawson a Mr. Owen am eu cymorth ac arweiniad.

Rwy'n cymryd y bydd cyfle am seibiant bach rwan. Diolch i'r llu sy'n rhoi o'u hamser i gefnogi a meithrin y talentau ifanc. I rai o'r rhieni bydd tymor arall o gludo a theithio ffyrdd y gogledd yn eu wynebu. Mae llygaid y sgowtiaid ar rhai o chwaraewyr y fro a byddent yn gwisgo lifrau sawl Academi, yn ymestyn o Gaernarfon draw i Gei Cona, Wrecsam ac Everton. Pawb a'i freuddwyd. A gawn wireddu tudalen newydd yn agor ym Methel ac un o'r ieuenctid yn gwisgo'r capan coch cenedlaethol a balchder. Brysied y dydd.

Os hoffech ymuno â'r clwb yn y gwahanol adrannau ar gyfer tymor nesaf cysylltwch drwy e-bostio cpdbethelfc@gmail.com.

# Hoelion Olaf yn Arch Rob Page

Fel oedd y rhifyn hwn o'r *Eco* yn mynd i'r wasg torodd y newyddion bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi diswyddo rheolwr y tîm dynion, Rob Page. Er i'r Gymdeithas roi cytundeb 4 mlynedd newydd i Page yn ôl yn 2022, maent wedi cyhoeddi eu bod wedi diddymu cytundeb y rheolwr cyntaf i fynd â Chymru i Gwpan y Byd ers 1958.

Yn sicr roedd siom pan fethodd Cymru â chyrraedd Ewro 2024 yn Yr Almaen, gan golli ar giciau o'r smotyn yn erbyn Gwlad Pŵyl ddiwedd mis Mawrth. Roedd llawer o'r cefnogwyr yn galw arno i fynd bryd hynny; ond byddai llawer yn dadlau mai'r canlyniadau cyn hynny oedd wedi chwalu ein breuddwydion o gyrraedd: y canlyniadau siomedig yn erbyn Armenia, a dim ond cael un pwynt o'r gemau yn erbyn Twrci. Roedd y difrod wedi ei wneud cyn gêm Gwlad Pŵyl. Nid 'un gic i ffwrdd' oeddem ni yn y pen draw.

Er na fyddai'r Wal Goch yn gwneud ymddangosiad yn Yr Almaen, roedd gemau cyfeillgar oddi cartref i edrych ymlaen atynt. O leiaf roedd modd cael taith '*Wales Away*'! Roedd y cyntaf yn erbyn Gibraltar, yn Faro yn haul poeth Portiwgal. Dydd Iau 6ed Mehefin, roedd oddeutu 950 o Gymry wedi gwneud y daith. Oni bai amdanyn nhw, mi fyddai'r stadiwm wedi bod yn wag. Roedd hi bron fel gêm yng nghanol sesiwn ymarfer! Doedd gan Gymru ddim tîm profiadol iawn, gyda nifer o chwaraewyr allweddol wedi cyhoeddi eisoes na fyddent yn rhan o'r garfan. Cyfle da felly i'r bechgyn ifanc ddangos eu doniau. Gyda 5 yn ennill eu cap cyntaf, a Josh Sheehan yn arwain y tîm, roedd yn dîm di-brofiad iawn.

Methodd Cymru yn llwyr i sgorio gyda'u cyfleoedd prin, ac fe orffennodd y gêm yn ddi-sgôr. Gyda Gibraltar yn 203ydd yn y byd, roedd hyn yn amlwg yn siomedig dros ben. Er bod Cymru yn chwarae tîm ifanc iawn, roedd gwell wedi ei ddisgwyl. Gan nad oedd tîm cryf wedi dechrau, roedd rhaid i Rob Page wneud newidiadau yn yr ail hanner gan gyflwyno Kieffer Moore, Brennan Johnson a Dan James i'r cae yn y gobaith o ddod o hyd i gôl neu ddwy. Daeth Lewis Koumas ymlaen hefyd (enw i gadw llygaid arno at y dyfodol yn bendant). Doedd dim cynnwrf yn chwarae Cymru, a dim math o gyffro yn y gêm.

Er mai gêm gyfeillgar oedd hi, roedd methu ag ennill yn erbyn tîm sydd wedi colli 13 gêm yn olynol gyda chyfanswm goliau o 50–0, yn warthus a siarad yn blaen. Hyd yn oed gyda thîm gweddol di-brofiad, mi ddylai Cymru fod wedi gwneud yn well. Gêm hynod ddiflas i'r Cymry oedd wedi teithio, ond lwcus bod y tywydd yn braf a Faro yn ddinas hyfryd.

Yn dilyn y siom yn Faro, roedd angen perfformiad gwell nos Sul 9fed Mehefin, yn Trnava yn erbyn Slofacia. Ni allai fod mor ddrwg â'r noson o'r blaen siawns?

Roedd cefnogwyr Slofacia yn ffarwelio â'u tîm ar ei ffordd i'r Almaen ar gyfer yr Ewros. Siomedig iawn oedd y dorf – gydag oddeutu 6,000 yn gwylio, a 1,000 o'r rheiny yn Gymry! Roedd y glaw yn disgyn a mellt a tharanau uwchlaw. Roedd mwy o gyffro yn y tywydd!

Hanner cyntaf digon siomedig a diflas, yn union fel gêm Gibraltar. Yr unig wahaniaeth y tro hwn oedd bod tîm ychydig yn gryfach wedi ei roi allan, gydag Ethan Ampadu fel capten. Cafodd Slofacia sawl cyfle cyn mynd ar y blaen cyn hanner amser. Pasio gwael gan Gymru, a diffyg ymateb gan Danny Ward yn golygu fod y tîm cartref yn gorffen yr hanner cyntaf gyda'r fantais.

Roedd Cymru wedi cael ambell gyfle, ond dim byd i gyffroi'r Wal Goch. Ymhen 10 munud o'r ail hanner, roedd Slofacia wedi dyblu eu mantais, a daeth trydedd gôl gyda gwyriad anffodus oddi ar Ethan Ampadu. Roedd pethau'n mynd o ddrwg i waeth i Gymru, a hynny'n cyrraedd uchafbwynt pan sgoriodd Slofacia gôl rhif 4 reit ar ddiwedd y gêm. Er mwyn arbed mwy o embaras i Gymru, fe chwythodd y dyfarnwr y chwiban terfynol heb ychwanegu amser anafiadau ar ddiwedd y gêm.

Dwy gêm anobeithiol i Gymru, a llawer yn cwestiynu tactegau Rob Page. Fe ymddiheurodd i'r cefnogwyr oedd wedi teithio, ac roedd llawer o'r rheiny'n gweiddi arno i adael. Roedd yn drist gweld pethau'n mynd yn chwerw o gofio mai ef oedd yn ein harwain yng Nghwpan y Byd. Bu'n rhaid aros am ragor na wythnos cyn i unrhyw gyhoeddiad gael ei wneud gan naill ai Rob Page ei hun neu'r Gymdeithas, tra fod y dadlau a'r dyfalu ar y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i ferwi.

Mae'n siŵr y bydd digon o gyfle i drafod a dadansoddi cyfraniad Rob Page i bêl-droed yng Nghymru yn y dyfodol, heb sôn am ddyfalu pwy fydd ei olynydd. Mae sawl enw cyfarwydd ac annisgwyl wedi eu crybwyll! Am y tro, mi wna'i ei gadael hi yn fa'ma a chawn weld os fydd yna newyddion 'mawr' erbyn cyhoeddi'r rhifyn nesaf o'r *Eco*!

**Mared Rhys Jones**

# Gêm y Dathlu ...

Er fod y gemau cynghrair wedi eu cwblhau cyn diwedd Mai, ar ddydd Sadwrn cyntaf Mehefin y daeth tymor swyddogol Clwb Pêl-droed Llanrug i ben pan chwaraewyd gêm 'hanesyddol' ar gae Eithin Duon rhwng tîm 2014 a'r tîm presennol.

Achos y dathlu oedd nodi deng mlynedd ers i dîm 2014 ennill Tlws FA Cymru yn erbyn Y Waun ar gae'r Rhyl; yr unig dro i dim o fro'r 'Eco' gael gafael yn y cwpan mwyaf gwerthfawr i dimau'r cynghreiriau llai.

Daeth torf dda i'r cae ar brynhawn braf a heulog i gefnogi ac i hel atgofion ar ddathliad hanesyddol. Yn wir, mae nifer dda o dîm 2014 yn parhau i chwarae i'r tîm presennol, ac eraill yn weithgar fel hyfforddwyr a rheolwyr – eu ffyddlondeb i dîm y pentref yn adrodd llawer am y modd y mae'r clwb yn cael ei lywio gan bwyllgor gweithgar.

Roedd rhaglen llawn lliw wedi ei chyhoeddi hefyd i gofio buddugoliaeth 2014. Oherwydd bod nifer o dîm presennol Llanrug yn chwarae i dîm 2014, ac ambell un o'r tîm presennol wedi eu hanafu, roedd popeth yn ffafrio'r 'hen' dîm, ac felly y profodd. Does dim angen datgelu'r sgôr, ond digon yw dweud mai Llanrug enillodd!



Tim 2014 a Tim 2024





Enillwyr Noson Wobrwyo

# ...a Noson Wobrwyo

Yn dilyn y gêm cynhaliwyd noson wobrwyo'r clwb yn Nhafarn Pen Bont. Chweched oedd safle Llanrug yn y gynghrair o bymtheg tîm, ond er hynny, roedd achos ganddynt i fod yn falch o'r ffaith mai nhw oedd prif sgorwyr y gynghrair gyda 110 o goliau mewn 28 gêm. A'r blaenwr, Jamie McDaid oedd prif sgoriwr y gynghrair hefyd, gyda 47 gôl. Yn ogystal ac ennill gwobr prif sgoriwr y clwb, does ryfedd iddo hefyd ennill gwobr Chwaraewr y Flwyddyn a Chwaraewr y Cefnogwyr.



Jamie McDaid

Dyma restr enillwyr eraill ar y noson: Chwaraewr Ifanc – Osian Williams; Chwaraewr y Pwyllgor (yn derbyn Tlŵs Dyl Eds) – Owain Jones; Chwaraewr y Chwaraewyr – Joni Sadler; Chwaraewr y Rheolwr – Jake Calley Thomas.

# Llanberis yn cipio Cwpan y Gynghrair




Nos Fercher, 29ain Mai, roedd Llanberis yn wynebu Glantraeth yn Ffeinal Cwpan y Gynghrair, Prif Adran Arfodir Gogledd Cymru.

Bu bron i ni gael Darbi Bro'r Eco yn y rownd derfynol gan fod Llanberis a Llanrug yn yn y Rownd Gyn-derfynol. Er i Lanberis ennill o 2-1 yn erbyn Bae Treaddur, yn anffodus colli 1-0 ddaru Llanrug yn erbyn Glantraeth. Felly nid gêm ddarbi y tro hwn!

Roedd y rownd derfynol yn ar Faes Eilian, Llanfairpwll, ac roedd y ddau dîm mewn hwyliau da wedi dod trwy'r Rownd Gyn-derfynol ychydig ddyddiau cynt. Braf oedd gweld torf mor dda, gyda ddim yn bell o 300 yn gwylio.

Llanberis gafodd gyfle cyntaf y gêm: gwaith da yng nghanol y cae gan Ben Jones ac ergyd isel at y gôl, ond arbediad gan golwr Glantraeth. O'r arbediad, golwr Glantraeth yn cychwyn yr ymosodiad o'r cefn a'r bêl ymlaen i'r ymosod. Glantraeth yn hawlio bod y bêl wedi taro llaw un o amddiffynwyr Llanberis, ond y dyfarnwr yn cario ymlaen gyda'r gêm, a Glantraeth yn cosbi Llanberis wrth i'r ymosodwr Tomos Hughes ergydio o'r tu allan i'r cwrt cosbi a chanfod cefn y rhwyd i roi'r tîm o Ynys Môn ar y blaen wedi chwarter awr o chwarae.

Roedd y ddau dîm yn cael cyfnodau gyda'r bêl. Daeth Llanberis yn gyfartal wedi 25 munud. Gwaith da yn nghanol y cae gan Ben Rowlands; ei bas at Peter Mansoor, ac yntau'n ei phasio i'r asgell chwith at ei frawd Ifan. Ergydiad o'r asgell gan Ifan Mansoor yn cael ei chrymanu at y postyn pellaf i gornel y rhwyd. Gôl wych gan Llanberis i unioni'r sgôr, ac yn haeddu bod yn gyfartal.

Cafodd Glantraeth gyfleoedd i fynd yn ôl ar y blaen cyn yr hanner. Yr amddiffynnwr Huw Griffith yn cael peniad o gic rydd, ond y peniad dros y trawst. Cyfle arall i sgoriwr gôl Glantraeth, Tomos Hughes ar y postyn pellaf, ond amddiffynnwr y Darans, Dylan Parry yn clirio am gic gornel.

Cyfartal 1–1 ar yr hanner, a hwnnw'n sgôr teg.

Yr ail hanner yn cychwyn gyda chyfleoedd i Lanberis. Croesiad gan Ben Jones i'r cwrt, ond Dylan Parry yn methu'r cyfle ar y postyn pellaf. Yna Nidian Huws yn penio o gic gornel Dion Owen, ond y peniad yn cael ei arbed gan golwr Glantraeth. Wedi 55 munud, tro golwr Llanberis, Lee Williams, oedd hi i wneud arbediad wedi iddo arbed cic rydd Shaun Monument.

Cyn yr awr, aeth Llanberis ar y blaen. Cic rydd o'r chwith gan Dion Owen; chwip o bêl i'r cwrt, a Peter Mansoor â chyffyrddiad i'r rhwyd i roi Llanberis ar y blaen 2–1.

Yna, wedi 64 munud, daeth cyfle arall i Lanberis. Sgoriwr yr ail gôl, Peter Mansoor drawodd at y gôl, ond amddifynnwr Glantraeth, Huw Griffith, yn amseru ei dacl yn berffaith a'r bêl yn mynd allan am gic gornel. Dion Owen gyda'r gic gornel at y postyn pellaf a Nidian Huws yn penio'r bêl ar draws y gôl, a'r eilydd Gethin Maxwell yno i rwydo'r drydedd gôl i Lanberis. Y Darans 3–1 ar y blaen.

Cafodd Glantraeth gyfleoedd i ddod yn ôl i'r gêm. Huw Griffith â pheniad rhydd yn y cwrt o gig gornel, ond y peniad dros y trawst. Chwarter awr yn weddill. Peniad o gic rydd yn cael ei chlirio gan amddiffyn Llanberis at Tomos Hughes; ond ei ergydiad o ddeuddeg llath yn syth at Lee Williams yn y gôl.



Roedd Llanberis yn weddol gyffyrddus am weddill y gêm, a hanner cyfleoedd yn unig gafodd Glantraeth, a'r ddau Ben, Jones a Rowlands, yn rheoli yng nghanol cae i Lanberis.

Wedi 90 munud, y dyfarnwr yn chwythu ei chwiban, a Llanberis yn fuddugol o 3–1 gan gipio Cwpan y Gynghrair. A'r dathliadau ar y diwedd yn dweud y cyfan. Chwaraewr canol cae Llanberis, Ben Rowlands, yn cipio gwobr Seren y Gêm.

Camp a chlod i Lanberis a'i reolwr Carwyn Jones am ennill Cwpan y Gynghrair. Dyma lwyddiant cyntaf y Darans ers 23 o flynyddoedd, wedi iddynt ennill Cwpan Alves nôl yn 2001!

A dyna gloi tymor arall o Bêl Droed domestig. Yn y Gynghrair, un safle oedd yn gwahanu dau dim y fro: Llanberis yn y 7fed safle a Llanrug yn y 6ed. Ond braf yw gweld llwyddiant yn lleol, a llongyfarchiadau i bawb yn Llanberis.

**Elgan Rhys Jones**

# Llysgennad Rasys 'SheUltra'

Y mis diwethaf rhoddwyd sylw i rai o ferched yr ardal a fu'n cystadlu yn y SheUltra gyntaf erioed yng Nghymru, sef ras redeg/cerdded dros 26 milltir i ferched yn unig. Fe'i trefnwyd gan Huw Williams o Ben Llŷn gyda'r bwriad o gasglu arian at elusen cancr i ferched.

Mae Fiona Morgan bellach wedi rhedeg sawl marathon yn y wlad hon a thramor, ac wedi rhedeg pellteroedd hwy na hynny hefyd. Dyna pam y gwahoddwyd hi gan Huw i fod yn llysgennad er mwyn hybu mwy o ferched i gymryd rhan yn y gamp. Dynion fel arfer sy'n rhedeg y rasys Ultra, ond gan fod nifer o ferched hefyd bellach yn ymddiddori yn y gamp, gofynnwyd i Fiona fod yn llysgennad ac annog mwy o ferched i gymryd rhan.


Ond nid y 'cymryd rhan' yn unig yw'r bwriad. Dros y pum mlynedd nesaf, y nod yw casglu miliwn o bunnoedd at achosion cancr mewn merched. Roedd dros 500 yn cystadlu ym Mhen Llŷn fis Mai, ond mae 1350 eisoes wedi cofrestru ar gyfer y ras yn 2025. Ond ni fydd Fiona'n cystadlu. Fel rhan o'i gwaith fel llysgennad a'i chefndir yn y byd nyrsio, bydd yn 'mobile medic' yma ac acw ar hyd y cwrs, yn barod i gynorthwyo unrhyw un mewn trafferth.

Ddiwedd Mai, bu hi a llysgenhadon eraill yn Iwerddon yn archwilio cwrs yno ar gyfer ras SheUltra fis Mai nesaf. Eisoes mae deg o'r rasys hyn yn cael eu cynnal yn Iwerddon, a deunaw ym Mhrydain. Mae Huw Williams bellach mewn cysylltiad â threfnwyr rasys cyffelyb led-led y byd, a bydd y syniad hwn o rasys i


Fiona Morgan

ferched yn unig yn cael eu cynnal yn Ffrainc, Portiwgal, Gwlad Groeg a'r Eidal yn 2025. Mae sôn hefyd am fynd i Dde Korea.

Mae blwyddyn brysur yn wynebu Fiona. Pob dymuniad da iddi yn y gwaith gwirfoddol gwerthfawr hwn.



# Dal i redeg...

**Bu'n fis hynod o brysur ar y ffyrdd a'r mynyddoedd ac anodd oedd cadw i fyny â holl lwyddiannau'r rhedwyr lleol. Felly, dyma ymddiheuro ymlaen llaw rhag ofn bod rhywun wedi cael ei anghofio.**

**Ar y mynyddoedd**

Mae'n rhaid pwysleisio'r lluosog! Cwblhaodd Darren Owen, Llanrug, Ras Ultra Marathon Eryri; dros 100 milltir – ie cant o filltiroedd dros fwyafrif copaon uchaf Eryri. Camp anhygoel, a llongyfarchiadau enfawr. Yn ddiweddarach yn y mis, cynhaliwyd Ras 1000 metr o Lanberis i gopa Elidir ac ar hyd y grib i'r Glyder cyn disgyn i Ben Gorffwysfa ac ymlaen i Lliwedd, copa'r Wyddfa, Moel Cynghorion ac yn ôl i Lanberis. Daeth llwyddiannau lleol ar y cwrs byr, sef i Ben Gorffwysfa yn unig. Anwen Hockley, Llanberis oedd yn fuddugol mewn amser o 2 awr, 21 munud, 45 eiliad. Roedd hefyd yn aelod o'r tîm cymysg cyntaf. Maggie Oliver, Dinorwig oedd yn fuddugol yn y grwp oedran dros 70 oed. Yn y gystadleuaeth i barau hŷn ac iau, y tad a'r mab, Neal a Deri Hockley o Lanberis oedd yn fuddugol mewn amser o 1 awr, 59 munud, 36 eiliad. Roedd yn amser rhyfeddol o gyflym: yr amser cyflymaf o'r holl redwyr oedd yn cystadlu ar y cwrs byr. Roedd Ras Cader Idris wedi denu dros 300 o redwyr, a daeth Gareth Hughes, Llanberis yn ail mewn amser o 1 awr, 32 munud, o Sgwâr Dolgellau i'r copa ac yn ôl. Fo hefyd oedd y rhedwr cyntaf dros 40 oed. Yn ddiweddarach, enillodd Ras Tal y Mignedd yn y gyfres nos Fawrth. Llongyfarchion hefyd iddo am gael ei ddewis i gynrychioli Tîm Cymru yn Ras yr Wyddfa sydd i'w chynnal yn ddiweddarach y mis hwn.

**Ar y ffyrdd**

Bu'n fis prysur i Arwel Lewis, Bethel. Roedd yn aelod o Dîm Meistri Cymru yn Ras 10 k Birmingham, ac ef oedd y Cymro cyntaf yn y categori oedran dros 65 oed. Roedd yn cynrychioli Tîm Meistri Cymru yn Hanner Marathon Manceinion hefyd. Yn Ras y 2 Bier (o Fae Colwyn i Landudno ac yn ôl) daeth yn 3ydd dros 65 oed. Yn Ras y Barcud Coch yng Ngheredigion, roedd unwaith eto'n gyntaf dros 65 oed.



Roedd Fiona a Hugh Morgan wedi croesi'r dŵr i gystadlu ym Marathon Cork, a chafodd Fiona ei hamser gorau – 3 awr, 45 munud – sy'n ei gosod fel y 9fed ferch yn ei grŵp oedran.



Cychwyn Ras yr Oedolion



Cychwyn Ras y Plant

**Ras 5k Llanrug**

Daeth 220 o redwyr i gystadlu yn Ras 5k Llanrug, a oedd hefyd yn Bencampwriaeth Gogledd Cymru. Torrwyd record y cwrs gan yr enillydd, Tom Roberts o Gaernarfon. Roedd canmoliaeth i holl drefniadau'r ras, a'r canlyniadau i gyd ar gael ar y wê cyn diwedd y noson. Dau o Lanberis aeth â'r gwobrau lleol: Deri Hockley yn fuddugol dan 17 oed ac Ynyr ap Rhys yn drydydd yn yr un categori. Bu ras y plant i oedran cynradd hefyd yn hynod lwyddiannus.



Y tri chyntaf wrth ddrws Eglwys Sant Hywyn

**Marathon y Pererinion**

Roedd dros 220 yn cystadlu ym Marathon y Pererinion, o'r Eifl i ddrws Eglwys Sant Hywyn yn Aberdaron, cymysgedd o lwybrau, tir garw a lonydd cefn. Roedd dros 50 o giatiau i'w hagor a'u cau ar y cwrs, felly doedd dim disgwyl amser cyflym iawn! Roedd y tri cyntaf ar y blaen o'r cychwyn, a'r tri'n gorffen o fewn pum munud i'w gilydd – rhwng 3 awr, 35 munud a 3 awr, 40 munud. Y rhain oedd yr unig redwyr i orffen mewn llai na phedair awr. Daeth Dyfed Thomas, Llanrug yn drydydd. Roedd nifer dda o redwyr lleol eraill yn cystadlu, ond doedd dim gwobrau i wahanol grwpiau oedran.

Mae cyfres rasys nos Fawrth yn dirwyn i ben, gyda chyfartaledd o dros gant o redwyr yn cymryd rhan ym mhob ras. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Ras Abergwyngregyn wedi ei chynnal, gyda dim ond Ras (fechan) Moel Eilio yn weddill i benderfynu ar wahanol enillwyr y gyfres.

Mae lleoliadau rasys traws-gwlad Cynghrair Gogledd Cymru, sydd i'w cynnal dros fisoedd y gaeaf, eisoes wedi eu penderfynu. Efallai y dylid ystyried rhoi enw arall i'r gystadleuaeth, oherwydd y lleoliadau yw Bangor, Bae Colwyn a Wrecsam yng Ngogledd Cymru, ac Aberystwyth, Amwythig a Chroesoswallt. Felly, bydd hanner y rasys o'r tu allan i Ogledd Cymru.



ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >